



YMGYNGHORIAD - Trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

Ebrill 2020

Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr	3
1 Cyflwyniad	5
Cefndir	5
Cwmpas yr ymgynghoriad	5
Cipolwg ar gynigion.....	9
2 Ein Cynigion	10
Cynnig 1: Cyflwyno egwyddorion ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020	10
Cynnig 2: Cyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020	19
3 Asesiad Effaith Integredig.....	29
4 Camau Nesaf.....	39

Rhagair

Mae amseroedd anghyffredin yn galw am fesurau anghyffredin. Bydd Haf 2020 yn brawf o hynny mewn sawl maes, gan gynnwys addysg.

O ystyried y penderfyniad i gau ysgolion a chanslo arholiadau o ganlyniad i'r pandemig coronafeirws, mae sefydlu trefniadau newydd ar gyfer yr haf hwn yn hanfodol i sicrhau bod dysgwyr yn derbyn eu graddau yn deg a'u bod yn gallu symud ymlaen i gam nesaf eu bywydau, p'un a yw hynny'n astudiaeth bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Yn amlwg, o dan amgylchiadau arferol, ein dewis ni fyddai i arholiadau fynd yn eu blaen fel y cynlluniwyd, fel y gellid osgoi pryderon dysgwyr a chanolfannau. Rydym yn deall pa mor anodd yw'r sefyllfa. Yn yr amgylchiadau rhyfeddol hyn, bydd graddau'n seiliedig ar ddyfarniadau canolfannau o gyrhaeddiad pob dysgwr, a fydd wedyn yn cael eu safoni ar draws canolfannau gan dynnu ar ystod o dystiolaeth arall.

Ar 3 Ebrill 2020, gwnaethom gyhoeddi Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau. Roedd hwn yn nodi'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i ysgolion a cholegau gasglu data a'i gyflwyno i CBAC er mwyn caniatáu cyhoeddi canlyniadau i garfan dysgwyr eleni¹. Gwnaethom ymgysylltu ag ystod o grwpiau cynrychioliadol, yn ogystal â CBAC, i'n helpu i ddatblygu'r arweiniad hwn yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'n gofyn i ganolfannau ddarparu:

- gradd asesu'r ganolfan ar gyfer pob dysgwr a gofrestrwyd ar gyfer pob cymhwyster;
- trefn restrol y dysgwyr o fewn pob gradd ar gyfer pob cymhwyster; a
- datganiad gan Bennaeth y Ganolfan, neu ddirprwy fel y disgrifir yn y canllawiau.

Er budd tegwch, bydd yr holl raddau asesu canolfannau a gyflwynir yn cael eu safoni gan CBAC, gan ddefnyddio model ystadegol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn sicrhau bod safon gyffredin yn cael ei chymhwyso i raddio dysgwyr ym mhob canolfan. Darperir mwy o wybodaeth am y model maes o law, unwaith y bydd wedi'i brofi a bod cytundeb arno.

Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn i bobl ddweud wrthym beth yw eu barn am ddwy agwedd allweddol ar drefniadau ar gyfer haf 2020.

Yn gyntaf, y nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer dysgwyr yr haf hwn.

Yn ail, y broses apelio ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.

¹ Cymwysterau Cymru (2020) *Graddau Haf 2020 ar gyfer TGAU, Safon UG, Safon Uwch a Thystysgrif Her Sgiliau (SCC): Gwybodaeth i ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau*. <https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/gwybodaeth-i-ganolfannau-ar-gyflwyno-graddau-asesu-canolfannau/>

Rydym yn awyddus i glywed pob barn ac adborth. Yn amlwg, nid oes unrhyw atebion perffaith ac rydym yn ymwybodol y gellir ystyried bod y cynigion hyn yn llai dymunol na'r trefniadau arferol. Pan fydd pobl yn anghytuno â'r cynigion yr ydym yn eu gwneud a bod ganddynt awgrymiadau hyfyw ar gyfer gwahanol drefniadau, neu fel arall mae ganddynt awgrymiadau ar gyfer gwella, rydym yn parhau i fod yn agored i ystyried dewisiadau amgen a byddem yn annog y cyfraniadau hynny.



David B Jones OBE DL (Cadeirydd)



Philip Blaker (Prif Weithredwr)

1. Cyflwyniad

Ein rôl

1.1 Fel y rheoleiddiwr annibynnol, mae gennym ddau brif nod:

- sicrhau bod cymwysterau, a'r system gymwysterau yng Nghymru, yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion rhesymol dysgwyr yng Nghymru; a
- hybu hyder y cyhoedd mewn cymwysterau a'r system gymwysterau yng Nghymru.

1.2 Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn rhoi nifer o bwerau inni sy'n ein galluogi i weithredu er budd dysgwyr, i hyrwyddo hyder y cyhoedd yn y system gymwysterau yng Nghymru ac i weithredu lle bo angen.

Cefndir yr ymgynghoriad hwn

1.3 Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lledaeniad coronafeirws (COVID-19), cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y dylid cau ysgolion² a chanslo cyfres arholiadau haf 2020³.

1.4 O ganlyniad, ar 6 Ebrill 2020, rhoddodd Gweinidog Addysg Cymru Gyfarwyddyd⁴ inni o dan Adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015 i roi sylw i bolisi Llywodraeth Cymru ynghylch canslo arholiadau a phenderfynu ar raddau yn dilyn hynny.

1.5 Mae'r Cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau bod dull teg a chadarn o roi graddau i garfan dysgwyr haf 2020 yn cael ei fabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar y dull y mae'n rhaid i ganolfannau ei ddilyn wrth ddod i ddyfarniadau o gyrhaeddiad eu dysgwyr, safoni dyfarniadau canolfannau a sicrhau bod llwybr clir ar gael i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn credu bod y broses wedi'i dilyn yn gywir wrth gyhoeddi eu graddau.

² Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru* <https://cyfryngau.gwasanaeth.llyw.cymru/newyddion/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru>

³ Llywodraeth Cymru (2020) *Datganiad ysgrifenedig ar arholiadau haf 2020* <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadau-haf>

⁴ Llywodraeth Cymru (2020) *Canslo arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch: llythyr* <https://llyw.cymru/canslo-arholiadau-tgau-ug-safon-uwch-llythyr>

Cwmpas yr ymgynghoriad

- 1.6 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar sut, o ganlyniad i'r Cyfarwyddyd hwn gan y Gweinidog Addysg, yr ydym yn cynnig y dylid cyhoeddi canlyniadau yn haf 2020 ar gyfer cymwysterau sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru⁵. Y rhain yw:
- Cymwysterau TGAU cymeradwy;
 - Cymwysterau UG cymeradwy;
 - Cymwysterau Safon Uwch cymeradwy;
 - Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ("y Dystysgrif"); a
 - Chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch etifeddol sydd ar gael i ddysgwyr yng Nghymru yn unig⁶.
- 1.7 Bydd cyfeiriadau yn yr ymgynghoriad hwn at 'y cymwysterau yr effeithir arnynt' yn cyfeirio at yr holl ddisgrifiadau hyn o gymwysterau oni bai ein bod yn nodi fel arall. Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys cymwysterau o dan yr un teitlau a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr ac sydd hefyd yn cael eu rheoleiddio gan Ofqual⁷.
- 1.8 Yn naturiol, bydd dysgwyr sy'n cymryd y cymwysterau yr effeithir arnynt eisiau sicrwydd bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau y byddant yn derbyn eu graddau, a bod y rheini'n adlewyrchu'n gywir y radd fwyaf tebygol y byddent wedi'i chyflawni pe byddent wedi sefyll eu harholiadau'r haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiad diarholiad (NEA). Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle pwysig i randdeiliaid roi eu barn ar y nodau a fydd yn sail i gyhoeddi graddau ar gyfer y cymwysterau hynny'r haf hwn, a'r broses a fydd ar gael i'r rheini sy'n anfodlon â'u canlyniadau.
- 1.9 Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i unrhyw un, ond hoffem glywed yn arbennig gan:
- ddysgwyr;
 - rhieni a gofalwyr;
 - cyrff dyfarnu;
 - gweithwyr addysg proffesiynol;
 - ysgolion a darparwyr dysgu cyn-16;
 - colegau addysg bellach;

⁵ Mae'r ymgynghoriad hwn yn berthnasol yn unig i ddysgwyr sydd wedi cofrestru am gymhwyster, yn hytrach nag uned o gymhwyster.

⁶ CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC Lefel 1/Lefel 2 TGAU mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn TGCh Gymhwysol, TAG Uwch Gyfrannol CBAC Lefel 3 mewn TGCh, TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), TAG Uwch Gyfrannol CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a TAG Uwch Lefel 3 CBAC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

⁷ Gwnaeth Ofqual ymgynghori ynghylch y cymwysterau hyn rhwng 15 Ebrill a 29 Ebrill 2020. Mae'r ddogfen ymgynghori ar gael ar eu gwefan.

- darparwyr hyfforddiant a dysgu yn y gweithle;
- prifysgolion;
- cyflogwyr a'u cyrff cynrychioliadol;
- awdurdodau lleol;
- consortia addysg rhanbarthol;
- undebau addysgu;
- sefydliadau sy'n cynrychioli dysgwyr ag anghenion neu ddiddordebau penodol; ac
- unrhyw sefydliadau neu unigolion eraill sy'n gweithredu yn y sector addysg, neu sydd â diddordeb ynddo.

- 1.10 Er bod yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i TGAU, UG a Safon Uwch a'r Dystysgrif yn unig, gwyddom fod ystod lawer ehangach o gymwysterau yr oedd dysgwyr yng Nghymru yn disgwyl sefyll asesiadau ac arholiadau ar eu cyfer yr haf hwn. Yn naturiol iawn, bydd y dysgwyr hynny yn ceisio sicrwydd tebyg a byddant am wybod pa drefniadau a wneir ar eu cyfer.
- 1.11 Wrth ystyried ein dull gweithredu, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer fawr o gymwysterau galwedigaethol hefyd ar gael yng nghaneddloedd eraill y DU. O ganlyniad, rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gyda'n cyd-reoleiddwyr (Ofqual a CCEA Regulation⁸) wrth i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais o'u cymharu â'u cyfoedion yn yr un garfan ledled y DU.
- 1.12 Mae'n amlwg bod cymhlethdod ac amrywioldeb y maes cymwysterau galwedigaethol yn golygu nad yw un dull yn briodol. Ar 9 Ebrill 2020, cyhoeddodd Ofqual yr egwyddorion a fydd yn cael eu cymhwyso i wahanol grwpiau o gymwysterau galwedigaethol, yn gysylltiedig â'u pwrpas a sut y maent yn cael eu defnyddio gan ddysgwyr ar gyfer dilyniant⁹. Er mwyn sicrhau cysondeb i ddysgwyr sy'n dilyn y cymwysterau hyn yng Nghymru, byddwn yn defnyddio'r un egwyddorion wrth benderfynu ar y dull cywir ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sydd wedi'u cynllunio'n benodol i ddiwallu anghenion dysgwyr yng Nghymru. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am ein hymagwedd tuag at y cymwysterau galwedigaethol hynny ar wahân.

⁸ Rheoleiddwyr cymwysterau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno.

⁹ Ofqual (2020) *Summer 2020 results for vocational, technical and other qualifications: Advice for teachers, trainers and tutors; learners, parents and carers; employers and professional bodies on vocational and technical qualifications, and general qualifications other than GCSEs, AS and A levels, Extended Project Qualifications and Advanced Extension Award in maths.*

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879019/Summer_2020_results_for_vocational_technical_and_other_qualifications.pdf

Y cynigion yn gryno

- 1.13 Mewn ymateb i'r Cyfarwyddyd gan y Gweinidog Addysg, rydym yn cynnig cyflwyno set o nodau fel sail i'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif yng nghyfres arholiadau haf 2020. Wrth ddatblygu'r nodau hyn, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r angen i sicrhau bod y dull a gymerir gan CBAC yr haf hwn mor deg a chadarn â phosibl, tra hefyd yn cynnal safon y cymwysterau dros amser.
- 1.14 Rydym hefyd yn cydnabod bod proses apelio yn nodwedd annatod o unrhyw gyfres arholiad, gan roi cyfle ystyrlon i ofyn am adolygu penderfyniadau a wneir fel rhan o'r broses ddyfarnu. Felly, mae'n bwysig ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau nad yw dysgwyr dan anfantais oherwydd yr amgylchiadau digynsail hyn, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg. Fodd bynnag, o gofio nad oes unrhyw arholiadau'r haf hwn, ni ellir defnyddio'r trefniadau arferol ar gyfer adolygiadau o farcio ac apeliadau.
- 1.15 O ganlyniad, rydym yn cynnig gweithredu proses apelio benodol ar gyfer yr haf hwn. Wrth ddatblygu'r broses hon, rydym wedi ystyried y trefniadau y mae angen eu rhoi ar waith i ganiatáu apêl effeithiol, gan gadw rhifau a chymhlethdod apeliadau yn hylaw er mwyn osgoi oedi ac ansicrwydd i ddysgwyr.
- 1.16 Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio'ch barn ar bob un o'r nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol arfaethedig a nodweddion y broses apelio arfaethedig.
- 1.17 Mae ein dull o ddatblygu'r cynigion hyn yn unol â'n prif nodau a'r wyth mater y mae'n rhaid i ni roi sylw dyledus iddynt, fel y nodir yn Neddf Cymwysterau Cymru 2015¹⁰. Rydym hefyd wedi ceisio sicrhau bod y cynigion hyn yn adlewyrchu'r egwyddor datblygu cynaliadwy¹¹ a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ein hamcanion mewn perthynas â'r Ddeddf hon¹² a'n Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus¹³.
- 1.18 Er enghraifft, rydym wedi ystyried effaith bosibl ein cynigion ar gyfer dysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yng Nghymru. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried yr angen i fabwysiadu dull teg a chadarn o roi graddau i garfan dysgwyr TGAU a Safon Uwch haf 2021 sydd wedi cael eu heffeithio wrth i arholiadau haf 2020 gael eu

¹⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2015) *Deddf Cymwysterau Cymru 2015*

<http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/5/section/3/enacted/welsh>

¹¹ Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn amlinellu pum ffordd o weithio y dylai cyrff cyhoeddus eu dilyn i gyflawni nodau llesiant y Ddeddf. Mae'r rhain yn rhai tymor hir (cydbwyso anghenion tymor byr a thymor hir), atal (atal problemau rhag digwydd neu waethgu i helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu nodau), integreiddio (ystyried effaith ein hamcanion ar nodau llesiant ac amcanion cyrff cyhoeddus eraill), cydweithredu (gweithio gyda phobl berthnasol eraill) a chynnwys (cynnwys eraill sydd â diddordeb yn y nodau llesiant).

¹² Cymwysterau Cymru (2018) *Datganiad ac amcanion llesiant cenedlaethau'r dyfodol*

<https://qualificationswales.org/media/3338/wellbeing-future-generations-objectives-2018-w.pdf>

¹³ Adran 149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010

canslo, ac ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi sefyll arholiadau o'r fath o'r blaen. Mae'r ystyriaethau hyn wedi ein helpu i lunio a mireinio ein cynigion ac i ddatblygu dull yr ydym yn credu sydd mor deg â phosibl i ddysgwyr, a dull y gall athrawon a chanolfannau sy'n gweithio mewn amgylchiadau anodd dros ben ymdopi ag ef.

- 1.19 Byddwn yn parhau i fonitro ein cynnydd yn erbyn ein hamcanion wrth i ni wneud penderfyniadau mewn perthynas â chymwysterau yn yr amgylchiadau digynsail hyn.
- 1.20 Ar gyfer pob cynnig, gofynnwn a ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig a rhoddwn gyfle i chi egluro'ch barn. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn clywed eich awgrymiadau amgen pe baech yn anghytuno â'r cynigion a wnaed. Rydym wedi cynnwys y cwestiynau ymgynghori perthnasol yn dilyn pob cynnig yn y ddogfen hon.
- 1.21 Rydym wedi cynhyrchu Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'r ddogfen ymgynghori hon (gweler adran 3). Gofynnwn am eich barn ar effaith ein cynigion, gan gynnwys unrhyw effaith ar unigolion neu grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig¹⁴ ac ar y Gymraeg.

Sut i ymateb

- 1.22 Bydd yr ymgynghoriad hwn ar agor am gyfnod o bythefnos o ddydd Mawrth 28 Ebrill 2020. Mae'r amserlen hon yn dynn oherwydd yr amgylchiadau rhyfeddol sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn a'r ceisiadau dealladwy am sicrwydd cynnar, i ddysgwyr, canolfannau a'r rhai a fydd yn defnyddio canlyniadau cymwysterau 2020.
- 1.23 Rydym yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn Gymraeg neu Saesneg gan ddefnyddio'r [arolwg ar-lein](#).
- 1.24 Er mwyn eich helpu i ystyried y cwestiynau ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, neu eu trafod ag eraill, rydym wedi sicrhau bod copi o'r cwestiynau ar gael ar ein [gwefan](#).
- 1.25 Os oes arnoch angen darparu ymateb trwy fformat gwahanol, anfonwch e-bost at arholiadauhaf2020@cymwysteraucymru.org. Oherwydd y pandemig coronafeirws, mae ein swyddfeydd ar gau, felly ni allwn dderbyn cyflwyniadau post i'r ymgynghoriad hwn.
- 1.26 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys manylion ein cynigion. Rydym hefyd wedi cyhoeddi fersiwn pobl ifanc o'r ddogfen sy'n crynhoi'r pwyntiau allweddol. Mae hon ar gael ar ein [gwefan](#).
- 1.27 Rydym wedi cyhoeddi [hysbysiad preifatrwydd](#) sy'n amlinellu sut y byddwn yn casglu ac yn storio unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych yn eich ymateb. Gellir cyrchu hwn ar ein gwefan.

¹⁴ Fel y'u diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

- 1.28 Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, cysylltwch ag arholiadauhaf2020@cymwysteraucymru.org
- 1.29 Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 17:00 ddydd Mercher 13 Mai 2020. Gan fod yr amserlen ar gyfer penderfyniad yn dynn, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion a gyflwynir ar ôl i'r ymgynghoriad gau.

2. Ein Cynigion

Cynnig 1 - Cyflwyno nodau i danategu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

- 2.1 Rydym wedi datblygu set o nodau i danategu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer dysgwyr sy'n cymryd cymwysterau yr effeithir arnynt yng nghyfres arholiadau haf 2020.

Ein nodau arfaethedig yw:

1. Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfan lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.
2. Bydd y canlyniadau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol i leihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser.
3. Bydd y graddau terfynol a roddir i ddysgwyr yn ganlyniad proses deg a chadarn gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir i CBAC gan ganolfannau a'r model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac a gytunwyd â Cymwysterau Cymru. Bydd y prosesau a ddefnyddir yn dryloyw ac yn gyraeddadwy'r haf hwn.
4. Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr dan anfantais, gan gynnwys y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.
5. Bydd prosesau cytunedig ar gyfer pob math o gymhwyster yn galluogi'r nifer uchaf o ddysgwyr i dderbyn graddau yn seiliedig ar ddull cyffredin. Bydd y prosesau'n defnyddio canlyniadau cymwysterau ac unedau sydd eisoes wedi'u cwblhau a'u dyfarnu i ddysgwyr, lle y byddant ar gael.

Lle ceir tensiwn rhwng y nodau, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i'r rheiny sy'n ein galluogi orau i fodloni ein prif amcanion yn yr amgylchiadau penodol.

Nod 1: Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfan lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.

- 2.2 Yn ein gwytodaeth ar gyfer canolfannau, gwnaethom nodi y byddai gradd wedi'i chyfrifo yn cael ei darparu ar gyfer dysgwyr lle byddai gradd asesu canolfan a threfn restrol yn cael eu cyflwyno. Dylai canolfannau gyflwyno graddau asesu canolfannau ar gyfer pob dysgwr y maent yn hyderus y gallant lunio dyfarniad ar ei gyfer. Penderfyniad Pennaeth y Ganolfan fydd hwn. Yn y modd hwn, dyfernir gradd i bob dysgwr y darperir

data asesu canolfan ar ei gyfer (gradd a threfn restrol, gyda chefnogaeth datganiad Pennaeth y Ganolfan).

- 2.3 Fe wnaethom hefyd egluro, lle mae canolfannau wedi derbyn ceisiadau gan 'ymgeiswyr preifat' (dysgwyr a allai gael eu dysgu gartref, yn dilyn rhaglenni dysgu o bell neu sy'n astudio'n annibynnol), dylid cynnwys y dysgwyr hynny lle mae Pennaeth y Ganolfan yn hyderus eu bod nhw a'u staff wedi gweld tystiolaeth ddigonol o gyflawniad y dysgwyr i lunio barn wrthrychol.
- 2.4 Dylai'r Pennaeth Canolfan gyfleu'r penderfyniad ynghylch a fydd yn cyflwyno gradd sydd wedi'i chyfrifo a threfn restrol ar gyfer unrhyw ymgeiswyr preifat i'r ymgeiswyr hynny, a chymryd cyngor gan CBAC lle nad yw achosion yn syml. Bydd yn bwysig i ganolfannau sicrhau bod eu cofnodion yn gyflawn ac yn gywir, gan mai dim ond ar gyfer y dysgwyr hynny sydd wedi cael eu cofrestru y bydd graddau'n cael eu cyhoeddi.
- 2.5 Rydym wedi bod yn gweithio gyda CBAC i ystyried yn ofalus sut i amddiffyn buddiannau ymgeiswyr preifat, nad oes ganddynt gysylltiad â chanolfan arholi, o bosibl, a fyddai'n galluogi llunio dyfarniadau a asesir gan ganolfan.
- 2.6 Rydym wedi ystyried yn ofalus a ellid cyhoeddi canlyniadau ar gyfer ymgeiswyr preifat lle na all canolfan gyflwyno gradd asesu canolfan a threfn restrol ar eu cyfer. Rydym wedi ystyried a ddylid ei gwneud yn ofynnol i CBAC sicrhau gwybodaeth berthnasol, yn debyg i raddau asesu canolfannau, gan diwtoriaid preifat neu rieni sydd wedi cymryd cyfrifoldeb am baratoi ymgeiswyr ar gyfer arholiadau. Fodd bynnag, yn wahanol i ganolfannau, nid oes cytundeb yn bodoli eisoes rhwng tiwtoriaid preifat neu rieni a CBAC y gellid ei ddefnyddio i sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol a dim mecanwaith sy'n caniatáu i CBAC ofyn am y datganiad angenrheidiol a'i orfodi.
- 2.7 Yn fwy arwyddocaol, bydd y dyfarniadau proffesiynol a wneir gan ganolfannau arholi i lywio graddau asesu canolfannau yn cael eu llywio gan eu profiad o bob dysgwr o gymharu ag ystod eang o'u cyfoedion, yn y grwpiau blwyddyn cyfredol a blaenorol. Ni fydd gan diwtoriaid preifat a rhieni'r cyd-destun hwn, ac rydym o'r farn y bydd hynny'n effeithio ar ddibynadwyedd unrhyw ddyfarniad(au) y gallent eu gwneud am y radd/graddau y gallai'r dysgwr fod wedi'u sicrhau. Ar ben hynny, bydd tiwtoriaid preifat a rhieni o bosibl yn agored i lawer o'r pwysau yr ydym wedi ceisio amddiffyn athrawon ohonynt wrth lunio barn, hyd yn oed yn anymwybodol.
- 2.8 Yn hanfodol, dim ond un rhan o'r wybodaeth a ddarperir gan ganolfannau yw gradd asesu canolfan. Bydd canolfannau hefyd yn cyflwyno safle pob dysgwr yn nhrefn restrol y ganolfan ar gyfer y cymhwyster hwnnw. Mae'r drefn restrol yn ganolog i'n dull arfaethedig ar gyfer y model safoni ystadegol. Rydym o'r farn ei bod yn dra annhebygol y gallai tiwtor preifat neu riant ddarparu gwybodaeth o'r fath.
- 2.9 Rydym yn parhau i archwilio gyda CBAC a oes opsiynau amgen ar gyfer y dysgwyr hynny nad oes ganddynt berthynas bresennol â chanolfan ac sydd angen canlyniadau'r

haf hwn at ddibenion dilyniant. Er enghraifft, gallai fod posibiliadau i rai canolfannau, fel y rhai sydd â phrofiad penodol o weithio gyda dysgwyr o bell, weithio gyda'r ymgeiswyr preifat hynny sydd angen gradd yr haf hwn er mwyn symud ymlaen. Efallai y bydd y ganolfan yn gallu cyflwyno graddau asesu canolfannau a threfn restrol ar gyfer yr ymgeiswyr hynny yn ddiweddarach, er nad oes perthynas yn bodoli rhwng y ganolfan a'r ymgeisydd ar hyn o bryd. Byddai angen i Bennaeth y Ganolfan allu cyflwyno datganiad ar gyfer dyfarniadau o'r fath yn yr un ffurf ag sy'n ofynnol ar gyfer pob myfyriwr arall.

- 2.10 Nid ydym yn gwybod eto a fydd hyn yn bosibl a bydd hyn yn rhannol yn dibynnu ar sefyllfa iechyd y cyhoedd a nifer y dysgwyr a allai fod eisiau ymgysylltu â chanolfannau fel hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda CBAC, a darperir diweddariadau pellach.

Cwestiwn ymgynghori:

Bydd dysgwyr y cyflwynir gradd asesu canolfan lefel cymhwyster a threfn restrol iddynt yn derbyn gradd.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Nod 2: Bydd y canlyniadau cenedlaethol ar gyfer haf 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol i leihau'r risg o annhegwch i ddysgwyr dros amser.

- 2.11 Mae safonau fel arfer yn cael eu cynnal mewn cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch trwy ddull sy'n defnyddio rhagfynegiadau ystadegol o berfformiad cenedlaethol mewn cyfuniad â dyfarniadau arbenigol o ansawdd gwaith ymgeiswyr a gynhyrchir yn ystod yr arholiadau a/neu'r asesiad diarholiad ar gyfer y cymhwyster.
- 2.12 Mae'r rhagfynegiadau'n seiliedig ar berfformiad cenedlaethol blaenorol ym mhob cymhwyster. Er nad ydym yn disgwyl i ganlyniadau cenedlaethol fod yn gyfwerth bob blwyddyn, rydym yn disgwyl iddynt fod yn debyg i flynyddoedd blaenorol. Mae'r broses yn rhoi rheolaethau o gwmpas faint y gall canlyniadau newid bob blwyddyn, fel y dylai unrhyw wahaniaethau wedyn adlewyrchu gwir newidiadau a welwyd mewn perfformiad ar lefel genedlaethol. Bwriad y dull hwn yw cynnal y safon bresennol ar gyfer y cymhwyster ac atal chwyddiant gradd na ellir ei gyfiawnhau, a fyddai dros amser yn creu annhegwch i ddysgwyr ar draws grwpiau blwyddyn.

- 2.13 Oni bai y bydd deilliannau 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd eraill, byddai annhegwch i ddysgwyr o grwpiau blwyddyn eraill. Mae'n bwysig nad yw hygrededd graddau dysgwyr yn cael ei danseilio'r haf hwn, a'u bod yn gallu gwrthsefyll craffu cyhoeddus.
- 2.14 Rydym yn deall bod dysgwyr a chanolfannau mewn sefyllfa anodd eleni. Er budd tegwch, rhaid i ni hefyd ystyried bod carfannau eraill o ddysgwyr, yn y gorffennol a'r dyfodol, wedi sefyll, ac yn mynd i sefyll, arholiadau. Yn y pen draw, gallai pob un o'r dysgwyr hyn gystadlu yn erbyn ei gilydd am fynediad i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae'n bwysig bod defnyddwyr graddau a ddyfarnwyd yn haf 2020 yn gallu eu dehongli fel rhywbeth sy'n golygu'r un peth yn fras â'r graddau a ddyfarnwyd i ddysgwyr mewn blynyddoedd eraill.
- 2.15 Mae'r dull o ddyfarnu graddau'r haf hwn o reidrwydd yn wahanol, felly ni allwn ddefnyddio'r dull arferol o gynnal safonau. Er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n debyg yn fras i flynyddoedd blaenorol, rydym felly'n bwriadu defnyddio rhagfynegiadau ystadegol yn seiliedig ar berfformiad cenedlaethol blaenorol fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer y model safoni ystadegol yr ydym yn ei datblygu ar hyn o bryd gyda CBAC.

Cwestiwn ymgynghori:

Bydd y canlyniadau ar gyfer haf 2020 yn debyg yn fras i'r rhai mewn blynyddoedd blaenorol.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Nod 3: Bydd y graddau terfynol a roddir i ddysgwyr yn ganlyniad proses deg a chadarn gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir i CBAC gan ganolfannau a'r model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC ac a gytunwyd â Cymwysterau Cymru. Bydd y prosesau a ddefnyddir yn dryloyw ac yn gyraeddadwy'r haf hwn.

- 2.16 Bydd angen i'r model safoni ystadegol a ddefnyddir gan CBAC gyfuno ystod o dystiolaeth, gan gynnwys dosraniadau graddau disgwylidig ar lefel genedlaethol, canlyniadau mewn blynyddoedd blaenorol ar lefel canolfan unigol, a phroffil cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr (gan gynnwys cyrhaeddiad mewn cymwysterau ac unedau sydd eisoes wedi'u dyfarnu).

Bydd angen i'r model hefyd ddarparu ar gyfer unrhyw ganolfannau heb ganlyniadau hanesyddol na data cyrhaeddiad blaenorol. Wrth ddatblygu'r dull hwn, byddwn yn gweithio gyda CBAC i ystyried ystod o fodolau safoni ystadegol y gellid eu defnyddio'r haf hwn. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddeall a ellid defnyddio data cyrhaeddiad blaenorol i gefnogi'r gwaith o gyfrifo graddau TGAU.

- 2.17 Mae gwahanol fodolau ar gyfer safoni ystadegol yn amrywio yn y pwyslais a roddant ar dystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfan (o ystyried cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr) yn erbyn y data asesu canolfan a gyflwynwyd (gradd a threfn restrol, gyda chefnogaeth datganiad Pennaeth Canolfan). Bydd y modelau hyn yn cael eu treialu i werthuso'r ffordd orau o gyfuno dystiolaeth i safoni graddau asesu canolfannau yn fwyaf cywir. Er enghraifft, byddwn yn gwerthuso'r rhychwant gorau posibl o ganlyniadau hanesyddol canolfannau (dros un, dwy neu dair blynedd).
- 2.18 Os yw model yn rhoi mwy o bwys ar raddau asesu canolfannau, mae'n cymryd yn ganiataol bod y graddau hyn yn gywir ac y byddent yn lleihau'r newidiadau y gellir eu gwneud rhwng y graddau asesu canolfannau a gyflwynir a'r graddau cyfrifedig terfynol a gyhoeddir. Gan ei bod yn debygol y byddai gwahaniaethau yn y safon a gymhwysir gan ganolfannau yn parhau, byddai hyn yn annheg. Er enghraifft, byddai dysgwyr o ganolfannau sy'n rhoi graddau a farnwyd yn llym dan anfantais o gymharu â dysgwyr o ganolfannau sy'n rhoi graddau a farnwyd yn gywir a fyddai, yn eu tro, dan anfantais o gymharu â dysgwyr o ganolfannau sy'n rhoi graddau sy'n rhy hael.
- 2.19 Gwyddom o ymchwil, pan fydd athrawon yn rhagfynegi neu'n amcangyfrif graddau at ddibenion eraill, megis ar gyfer ceisiadau i brifysgolion neu lle y cawsant eu darparu yn hanesyddol i gyrff dyfarnu, eu bod yn tueddu i fod (yn gyffredinol) yn hael yn amlach nag y maent yn llym¹⁵. Os oes mwy o ganolfannau'n cyflwyno graddau hael na graddau llym, gallai'r dosbarthiad gradd cenedlaethol canlyniadol fod yn uwch na'r disgwyl. Byddai hyn yn annheg i ddysgwyr yn y blynyddoedd blaenorol a'r blynyddoedd i ddod y bydd dysgwyr eleni yn cystadlu â nhw am gyfleoedd mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth. Gallai hefyd danseilio hygrededd y graddau a ddyfernir i ddysgwyr yr haf hwn.
- 2.20 Byddai model amgen yn rhoi mwy o bwys ar ddisgwyliadau ystadegol ac yn pennu'r dosbarthiad graddau mwyaf tebygol ar gyfer pob canolfan yn seiliedig ar berfformiad blaenorol y ganolfan a phroffil cyrhaeddiad blaenorol ei dysgwyr. Byddai wedyn yn defnyddio'r drefn restrol a gyflwynwyd i ddyrannu graddau i ddysgwyr unigol yn unol â'r dosbarthiad gradd disgwylidig hwn. Un o effeithiau'r dull hwn fyddai y bydd y graddau cyfrifedig terfynol a dderbynnir gan ganolfannau yn aml yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd. Mae ymchwil yn awgrymu y gall athrawon roi eu hymgeiswyr mewn trefn restrol yn gywir (mae'r gydberthynas rhwng trefn restrol rhagfynegiadau neu

¹⁵ Gweler, er enghraifft, UCAS (2019) a Dhillon (2002) fel y dyfynnwyd yn Ofqual (2020) *Equality Impact Assessment: literature review* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879605/Equality_impact_assessment_literature_review_15_April_2020.pdf

amcangyfrifon athrawon a graddau gwirioneddol yn gymharol gryf)¹⁶.

- 2.21 Byddai'r dull hwn yn fwy tebygol o sicrhau bod safon gyson yn cael ei chymhwyso ar draws canolfannau ac felly mae'n fwy tebygol o fod yn deg. Byddai hefyd yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddai'r dosbarthiad gradd cenedlaethol canlyniadol yn debyg i'r hyn a ddisgwylir, yn seiliedig ar flynyddoedd blaenorol. Ymhellach, gellid cyflawni hyn heb roi mantais annheg i ganolfannau sy'n darparu graddau asesu canolfannau chwyddedig. Felly, credwn fod dull sy'n rhoi mwy o bwys ar ddisgwyliadau ystadegol yn briodol ac yn fwyaf teg i ddysgwyr.
- 2.22 Rydym yn ymwybodol bod rhai canolfannau'n disgwyl y gallent fod wedi gweld gwelliannau mewn canlyniadau pe bai arholiadau wedi'u cynnal yn 2020, er gwaethaf y ffaith bod y canlyniadau yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn sefydlog neu'n dirywio. I'r gwrthwyneb, gallai rhai canolfannau fod wedi gweld canlyniadau'n dirywio. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ffordd ystadegol ddibynadwy o ddarparu ar gyfer newidiadau o'r natur hon, oni bai ei bod yn cael ei chefnogi gan y data cyrhaeddiad blaenorol.

Cwestiwn ymgynghori:

Mae'n debyg mai model safoni ystadegol sy'n defnyddio tystiolaeth hanesyddol o berfformiad canolfannau a chyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, ynghyd â'r data asesu canolfannau, fydd y dull tecaf a fydd yn cynhyrchu graddau cyfrifedig mwy cywir.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Nod 4: Cyn belled ag y bo modd, ni fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, dan anfantais o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- 2.23 Rydym wedi gofyn i ganolfannau gyflwyno graddau a threfn restrol ar gyfer eu dysgwyr oherwydd eu bod yn y sefyllfa orau i ddeall sut mae eu dysgwyr wedi bod yn perfformio trwy gydol y cwrs. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu gwobrwyo'r haf hwn gyda graddau yn seiliedig ar dystiolaeth o'u cyrhaeddiad yn y pwnc.

¹⁶ Baird (1997) yn Ofqual (2020) *Equality Impact Assessment: literature review*

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879605/Equality_impact_assessment_literature_review_15_April_2020.pdf

- 2.24 Yn ogystal â rheoli risg i ganlyniadau cenedlaethol a chanolfannau'r haf hwn, mae'n rhaid i ni ystyried hefyd sut i fynd i'r afael ag unrhyw anghydraddoldebau a allai ddeillio o duedd yn y data asesu canolfannau. Gallai'r math hwn o duedd ymddangos fel tanchwyddiant neu orchwyddiant graddau ar gyfer dysgwyr â nodweddion diffiniedig, mewn perthynas â chyrhaeddiad arferol dysgwyr sydd â'r un nodweddion wrth sefyll arholiadau.
- 2.25 Mae'r broses i gynhyrchu data asesu canolfannau'r haf hwn yn unigryw oherwydd amgylchiadau eithriadol y pandemig coronafeirws. Ni chafodd ei ddefnyddio o'r blaen ac felly nid oes tystiolaeth ymchwil ar y risg o duedd o'r dull hwn.
- 2.26 Fel yr amlinellwyd yn Nod 3, fodd bynnag, mae tystiolaeth ymchwil ar duedd mewn graddau eraill a ragfynegir gan athrawon, er enghraifft, ar gyfer mynediad i brifysgol neu i gefnogi cyrff dyfarnu mewn gosod safonau. Mae'r dystiolaeth ar duedd yn y graddau hynny yn gymysg, ac mae'n ymddangos bod yr effeithiau'n amrywiol ac yn dibynnu ar y cyd-destun.
- 2.27 Y canfyddiad cryfaf yn yr ymchwil dan sylw yn adolygiad llenyddiaeth Ofqual¹⁷ oedd ei bod yn debygol y bydd rhai effeithiau ar gywirdeb rhagfynegiad yn gysylltiedig ag ethnigrwydd (hynny yw, mwy o or-ragfynegiad i rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig) ac anfantais (hynny yw, mwy o or-ragfynegiad ar gyfer y mwyafrif difreintiedig yn gyffredinol, ond llai o or-ragfynegiad ar gyfer y rhai mwy difreintiedig ymhlith y rhai uchel eu cyrhaeddiad), ond nid yw'r effeithiau hynny wedi'u hamcangyfrif yn iawn.
- 2.28 Rydym eisoes wedi trafod yn Nod 3 sut mae safoni yn amddiffyn rhag gorchwyddo neu danchwyddo graddau ar lefel genedlaethol a chanolfan. Mae defnyddio data cyrhaeddiad blaenorol am y dysgwyr yn y model safoni ystadegol hefyd yn helpu i sicrhau bod graddau a gyfrifir yn cynrychioli cyrhaeddiad y dysgwyr yn well yr haf hwn. Byddai'r berthynas rhwng canlyniadau a nodweddion dysgwyr a chanolfannau yn cael ei chynnal i raddau helaeth o'r blynyddoedd blaenorol, pan fyddai asesiad yn digwydd yn y modd arferol. Mae'r ffordd hon o liniaru effeithiau posibl unrhyw duedd yn tybio bod nodweddion dysgwyr mewn canolfannau yn sefydlog dros amser.
- 2.29 Byddwn yn sicrhau bod data asesu'r ganolfan yn cael ei wirio cyn gynted â phosibl ar ôl ei ddarparu i weld a oes tystiolaeth bod bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Byddwn yn defnyddio'r dystiolaeth honno i helpu i sefydlu ein dull o gyfrif graddau a dewis y model safoni ystadegol terfynol.
- 2.30 Er ei bod yn gyffredin mewn cyd-destun ymchwil ceisio egluro (a meintoli) yr ystod o ffactorau sy'n dylanwadu ar ganlyniadau mewn amgylchiadau arferol, nid ydym yn

¹⁷ Ofqual (2020) *Equality Impact Assessment: literature review*

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/879605/Equality_impact_assessment_literature_review_15_April_2020.pdf

cynnig gwneud cywiriadau pellach, wedi'u targedu'n fanwl, i raddau wedi'u cyfrifo sy'n gysylltiedig â grwpiau penodol o ddysgwyr er mwyn efelychu patrymau canlyniadau hanesyddol yn union ar gyfer y grwpiau hynny. Pe bai addasiad o'r fath yn cael ei wneud, byddai'n rhaid iddo fod ar sail amcangyfrifon hynod gywir a dibynadwy o'r berthynas rhwng nodweddion a graddau dysgwyr ac nid ydym yn hyderus bod y cywirdeb hwn ar gael o'r data.

2.31 Byddai'r mathau hyn o addasiadau hefyd yn newid trefn restrol y dysgwyr a ddarperir gan bob canolfan - gan uwchraddio neu israddio rhai dysgwyr dros eraill ar sail y nodweddion megis eu rhyw, eu statws economaidd-gymdeithasol neu eu hethnigrwydd yn unig. Byddai hyn yn diystyru'r dyfarniadau a wneir gan ganolfannau o ran trefn restrol, a fydd yn seiliedig ar gyrhaeddiad tebygol dysgwyr yr haf hwn pe baent wedi sefyll eu harholiadau. Nid ydym yn bwriadu newid y drefn restrol a gyflwynir gan ganolfannau oherwydd credwn mai canolfannau sydd yn y sefyllfa orau i farnu perfformiad tebygol eu dysgwyr mewn perthynas â'i gilydd ar ddiwedd y cwrs.

2.32 Mae rhesymau eraill pam nad ydym y cynnig gwneud yr addasiadau pellach hyn, gan gynnwys:

- Os ydym yn newid graddau'r haf hwn, er enghraifft, ar sail rhyw dysgwr yn unig, nid yw'n eglur beth sy'n cyfiawnhau'r newid mewn graddau. Mae'n bosibl y byddai unrhyw addasiad sy'n gysylltiedig â nodwedd fel rhyw mewn gwirionedd yn addasu ar gyfer ffactorau eraill nad ydynt wedi'u mesur (er enghraifft, gwahaniaethau mewn profiadau o diwtora cartref yn ôl rhyw).
- Os gwneir addasiad pellach i gulhau, er enghraifft, y bwlch cyrhaeddiad yn ôl rhyw, gallai hyn achosi problemau eraill, er enghraifft, mewn perthynas â chanlyniadau ar lefel genedlaethol a chanolfan neu fylchau cyrhaeddiad eraill (fel yn ôl statws economaidd-gymdeithasol neu ethnigrwydd).
- Mae tystiolaeth ymchwil flaenorol¹⁸ hefyd wedi awgrymu mai cyrhaeddiad blaenorol dysgwyr fydd y ffordd bwysicaf o gyfrifo graddau'r haf hwn, ac mai ychydig iawn o wahaniaeth y bydd ychwanegu gwybodaeth arall am ddysgwyr yn ei wneud i gywirdeb graddau a gyfrifir.

2.33 Credwn hefyd y byddai ymyrraeth i addasu graddau yn seiliedig ar nodweddion heblaw tystiolaeth cyrhaeddiad yn ddigynsail yn hanes safonau ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch. Pan ddiwygir cymwysterau, ystyrir effaith bosibl newidiadau i fodolau asesu ar y dysgwyr hynny sydd â nodweddion gwarchoddedig yn ofalus. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ymdrech yn ystod y broses gosod safonau i gynnal gwahaniaethau blaenorol mewn canlyniadau rhwng dysgwyr sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig

¹⁸ Gweler er enghraifft Benton a Yin (2011) *Investigating the relationship between A level results and prior attainment at GCSE* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/605906/2011-09-29-investigating-the-relationship-between-a-level-results-and-prior-attainment-at-gcse.pdf Rhagfynegwyd graddau yn gywir ar gyfer 40.1% o gofrestrïadau Safon Uwch gan ddefnyddio cyrhaeddiad blaenorol dysgwr (sgôr gymedrig TGAU ar gyfartaledd). Pan ddefnyddiwyd ystod o ffactorau ychwanegol, dim ond i 40.5% y cynyddodd y cywirdeb (tudalen 18, Tabl 2).

penodol, megis anabledd, ethnigrwydd neu ryw, neu sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol penodol. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr anhawster o sefydlu i ba raddau y mae gwahaniaethau mewn cyfle addysgol yn achosi gwahaniaethau mewn canlyniadau, yn hytrach na newidiadau yn y modelau asesu.

2.34 Ffynhonnell botensial arall o anfantais fyddai gwall wrth gasglu a chyfuno data yn y model i gynhyrchu'r graddau a gyfrifwyd. Bydd y system y bydd CBAC yn ei defnyddio i gasglu'r data asesiadau canolfannau yn cael ei gynllunio i leihau'r siawns o wallau. Pan gyflwynir trefn restrol gan ganolfannau, bydd y data yn cael ei wirio. Er enghraifft, bydd y trefnau rhestrol yn cael eu gwirio yn erbyn y trefnau rhestrol ar gyfer yr un ymgeiswyr a arsylwyd mewn asesiadau blaenorol (er enghraifft, mewn asesiadau UG ar gyfer ymgeiswyr Safon Uwch). Mae'n bwysig iawn i ganolfannau wneud eu gwiriadau eu hunain cyn cyflwyno'r trefnau rhestrol i sicrhau eu bod yn gywir. Os oes tystiolaeth gref o gamgymhariad, bydd CBAC yn gwirio'r drefn restrol a asesir gan y ganolfan gyda'r ganolfan i weld a oes gwall wedi'i wneud. Fodd bynnag, bydd yn amhosibl canfod gwallau cynnil yn y drefn restrol a gyflwynwyd mewn modd dibynadwy gan ddefnyddio dulliau ystadegol.

Cwestiwn ymgynghori:

Cyn belled ag y bo modd, dylem sicrhau na fydd y broses ar gyfer dyfarnu graddau yn haf 2020 yn rhoi grwpiau o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd â nodweddion gwarchoddedig, dan anfantais o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Nod 5: Bydd prosesau cytunedig ar gyfer pob math o gymhwyster yn galluogi'r nifer uchaf o ddysgwyr i dderbyn graddau yn seiliedig ar ddull cyffredin. Bydd y prosesau'n defnyddio canlyniadau cymwysterau ac unedau sydd eisoes wedi'u cwblhau a'u dyfarnu i ddysgwyr, lle byddant ar gael.

2.35 Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylid rhoi canlyniadau i garfan haf 2020 o ddysgwyr TGAU, UG, Safon Uwch a'r Dystysgrif. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth bresennol i gefnogi dyfarnu graddau cywir yn y cymwysterau hyn yn amrywio, ac mae'r cymwysterau eu hunain hefyd yn amrywio o ran eu dyluniad. Felly mae rhywfaint o amrywiad yn y broses o ddyfarnu graddau ar draws y mathau hyn o gymwysterau yn anochel ac yn ddymunol, er mwyn sicrhau bod y dystiolaeth fwyaf priodol yn cael ei

hystyried. Bydd yr amrywiadau hyn yn cael eu cynnwys yn y prosesau y cytunwyd arnynt.

2.36 Mae enghreifftiau o amrywiadau ar draws mathau o gymwysterau yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Yng Nghymru, mae cymwysterau UG yn cyfrannu 40 y cant o'r marciau tuag at y radd Safon Uwch. Lle mae ymgeiswyr Safon Uwch eisoes wedi derbyn UG yn yr un pwnc yn seiliedig ar yr asesiadau arferol, mae'n gwneud synnwyr defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddyfarnu'r radd Safon Uwch.
- Yn yr un modd, mae ymgeiswyr UG eisoes wedi cymryd TGAU, a gellir defnyddio eu canlyniadau TGAU i helpu i ddyfarnu graddau UG cywir.
- Bydd rhai ymgeiswyr TGAU wedi cymryd nifer cyfyngedig o gymwysterau ac unedau o'r blaen. Pan fydd dysgwr wedi cwblhau a derbyn dyfarniad o unedau o'u TGAU unedol mewn cyfres arholiadau flaenorol, er enghraifft, uned 1 yn y gyfres Gwyddoniaeth TGAU, rhoddir ystyriaeth i sut y defnyddir y dystiolaeth hon i gyfrifo graddau'r haf hwn.

Cwestiwn ymgynghori:

Bydd prosesau ar gyfer cyhoeddi graddau yn haf 2020 yn defnyddio canlyniadau o unrhyw gymwysterau ac unedau sydd eisoes wedi'u cwblhau a'u dyfarnu. O'r herwydd, gall y dystiolaeth a ddefnyddir fod yn wahanol ar draws y mathau o gymwysterau.

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r nod hwn?

(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.

(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Cynnig 2: Cyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020

2.37 Yn yr adran hon, rydym yn nodi ein cynnig i gyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.

2.38 O dan drefniadau arferol, rydym yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC ganiatáu'r cyfle i herio'r dyfarniadau a wneir mewn cysylltiad ag asesu perfformiad dysgwr mewn arholiadau neu mewn asesiad diarholiad ffurfiol. Amlinellir y rhain isod:

- trwy adolygiad o farcio deunydd asesu wedi'i farcio, a fydd yn ystyried a wnaed unrhyw wallau marcio, a chywirir unrhyw wallau o'r fath;
- trwy adolygiad o gymedroli, a fydd yn ystyried a wnaed unrhyw wallau cymedroli, ac yn cywiro unrhyw wallau o'r fath;

- trwy apêl, a fydd yn ystyried a yw unrhyw wall marcio neu wall cymedroli wedi parhau trwy'r broses adolygu, neu wedi'i achosi gan y broses honno, yn ogystal ag ystyried a oes unrhyw wall gweithdrefnol wedi digwydd.

2.39 Mae'n ofynnol i CBAC hefyd sicrhau bod gan ganolfannau broses adolygu ar waith i ystyried a yw deunydd asesu a farciwyd gan y ganolfan wedi'i farcio'n gyson.

2.40 O ystyried bod arholiadau wedi'u canslo, ni all y trefniadau arferol ar gyfer adolygiadau o farcio ac apelio fel sy'n ofynnol gan ein Hamodau¹⁹ weithredu'r haf hwn. Mae hyn oherwydd y ffaith na fydd unrhyw ddeunydd asesu wedi'i farcio na'i gymedroli gan CBAC ac nid oes unrhyw feini prawf ar gyfer penderfynu a yw gwall wedi digwydd. Fodd bynnag, yn unol â'r Cyfarwyddyd a roddwyd i ni gan y Gweinidog Addysg, rydym o'r farn y dylai CBAC barhau i fod â phroses apelio ar waith ar gyfer yr haf hwn, ac felly rydym yn cynnig cyflwyno proses benodol a fydd yn berthnasol ar gyfer cyfres haf 2020 yn unig.

2.41 Ar gyfer y broses apelio, rydym yn cynnig:

- dylai canolfannau, ar ran un neu fwy o'u dysgwyr, apelio i CBAC ar y sail ganlynol na ddefnyddiodd CBAC ei weithdrefnau yn gyson, yn briodol neu'n deg wrth ddod i'r canlyniadau hynny.
- dylai CBAC ymchwilio i apelïadau ar y seiliau hyn a chanfod a chywiro unrhyw wallau yn gyflym gan ddefnyddio proses symlach;
- dylai CBAC ddarparu proses apelio ffurfiol ar gyfer canolfan sy'n pryderu bod gwall yn parhau i fod heb ei ganfod a/neu heb ei gywiro ar ôl unrhyw wiriad cychwynnol. Yn ôl yr arfer, gallai canlyniadau ostwng yn ogystal â gwella yn dilyn apêl, yn ôl yr angen i gywiro unrhyw wall.

2.42 Wrth ddatblygu ein cynigion, rydym wedi ystyried a ddylai'r broses honno gynnwys y cyfle i:

- adolygu'r dyfarniadau proffesiynol y penderfynwyd ar raddau asesu canolfannau a threfn restrol arnynt, a'r weithdrefn a ddilynwyd gan ganolfan wrth gyflwyno data asesu canolfannau;
- adolygu'r weithdrefn a ddilynwyd gan CBAC, wrth ddefnyddio graddau asesu canolfannau a threfn restrol, a'r model safoni ystadegol i bennu graddau terfynol.

Byddwn yn delio â phob un o'r ystyriaethau hynny yn eu tro isod.

Adolygu'r dyfarniadau proffesiynol y penderfynwyd ar raddau asesu canolfannau a threfn restrol arnynt, a'r weithdrefn a ddilynwyd gan ganolfan wrth gyflwyno'r data

¹⁹ Qualifications Wales (2020) *Additional Standard Conditions of Recognition for GCSE/ GCE qualifications* <https://qualificationswales.org/english/publications/additional-standard-conditions-of-recognition-for-gcse-gce-qualifications/> and Qualifications Wales (2019) *Additional Standard Conditions of Recognition for the Welsh Baccalaureate Skills Challenge Certificate*

asesu canolfannau.

- 2.43 Ar gyfer dyfarniadau'r haf hwn, gofynnir i ysgolion, colegau a chanolfannau arholi eraill ddarparu graddau asesu canolfannau a threfn restrol ar gyfer eu dysgwyr. Rhaid i'r graddau asesu canolfannau hyn a gyflwynir i CBAC adlewyrchu dyfarniad teg, rhesymol ac ystyriol o'r radd fwyaf tebygol y byddai dysgwr wedi'i chyflawni pe bai wedi sefyll ei arholiadau'r haf hwn ac wedi cwblhau unrhyw asesiad diarholiad. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau ddefnyddio eu harbenigedd proffesiynol a llunio barn broffesiynol a fydd yn llywio cyfrifiad CBAC o ganlyniadau dysgwr yr haf hwn.
- 2.44 Mae hyn yn beth anghyffredin yr ydym yn gofyn i ganolfannau ei wneud, ond mae'r amgylchiadau digynsail yn golygu bod angen cymryd camau o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn hyderus bod athrawon mewn sefyllfa dda i lunio'r dyfarniadau hyn oherwydd byddant wedi ymgysylltu â'u dysgwyr trwy'r cwrs astudio, yn meddu ar ddealltwriaeth dda o'u galluedd a sut maent yn cymharu â dysgwyr eraill yn y ganolfan honno sy'n cymryd y cymhwyster hwn eleni, ac mewn blynyddoedd blaenorol.
- 2.45 Wrth gyhoeddi ein penderfyniad i ofyn i ganolfannau wneud dyfarniadau o'r fath, mae cwestiynau wedi codi, a byddant yn parhau i godi, ynghylch a ddylai dysgwyr sy'n anfodlon â'u canlyniadau'r haf hwn allu apelio ar sail y dyfarniadau canolfannau hynny, a'r gweithdrefnau y mae canolfan yn eu dilyn wrth gyflwyno'r data asesu canolfannau.
- 2.46 Rydym yn deall y gallai dysgwyr bryderu nad yw canolfan wedi dilyn proses briodol neu deg wrth gyrraedd y data asesu canolfannau a gyflwynir i CBAC, ac y gallai caniatáu ar gyfer gwneud apeliadau ar y sail hon roi hyder ychwanegol i ddysgwyr ym mhroses graddau asesiad canolfan. Fodd bynnag, am y rhesymau a amlinellir isod, nid ydym yn credu y byddai caniatáu apêl ar y seiliau hyn yn briodol, yn effeithiol nac yn deg.
- 2.47 Yn gyntaf, yn achos asesiad diarholiad, sef y gymhariaeth agosaf â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer yr haf hwn, mae'n ofynnol i CBAC fod â phroses ar waith i adolygu marcio deunyddiau asesu'r ganolfan ar gyfer dysgwyr sy'n anhapus â'r marciau a gynigir. Pwrpas yr adolygiad hwnnw yw ystyried a yw marcio asesiad dysgwr yn gyson â marcio'r un asesiad a gymerwyd gan ddysgwyr eraill yn y ganolfan. Yn bwysig, mae'r meini prawf y mae'n rhaid eu dilyn i farnu perfformiad dysgwyr yn yr asesiad yn cael eu gosod yn allanol gan y corff dyfarnu, a bydd hyfforddiant ar gael i ganolfannau ar y meini prawf hynny.
- 2.48 Yn dilyn y broses hon, mae'r marcio ar lefel canolfan hefyd yn cael ei safoni ar draws canolfannau trwy waith cymedroli a wneir gan y corff dyfarnu. Mae'r broses hon hefyd wedi'i chynllunio i sicrhau bod y meini prawf marcio yn cael eu cymhwysu'n gywir ac yn gyson.
- 2.49 Yn y trefniadau arfaethedig ar gyfer yr haf hwn, yr unig nodwedd gyson fydd y model safoni ystadegol a ddatblygwyd gan CBAC i safoni graddau ar draws canolfannau ym mhob cymhwyster. Ni fu unrhyw gyfle i safoni'r dyfarniadau a wnaed gan athrawon ar

draws canolfannau'r haf hwn, er y dylid safoni mewn canolfannau unigol. Hyd yn oed lle mae papurau blaenorol wedi cael eu defnyddio fel tystiolaeth, mae'n bosibl bod gwahanol ganolfannau wedi defnyddio gwahanol bapurau ac efallai bod ffug arholiadau wedi'u gweinyddu o dan amodau gwahanol ac ni fydd pob un o'r athrawon sy'n marcio'r asesiadau hynny wedi cael eu hyfforddi fel aseswyr gan CBAC.

- 2.50 Gan nad oes meincnod na safon gyffredin y gellir gwerthuso dyfarniadau proffesiynol athrawon yn eu herbyn, neu werthusiad a defnydd canolfan o'r dyfarniadau hynny mewn graddau asesu canolfannau, gellir ystyried proses sy'n caniatáu ar gyfer apelio yn erbyn dyfarniadau canolfan yn annheg.
- 2.51 Ar hyn o bryd, mae athrawon yn gweithio dan amodau anodd i gynorthwyo dysgwyr i barhau â'u dysgu o bell ac i gadw canolfannau ar agor i blant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Er mwyn sicrhau bod gan CBAC y dystiolaeth orau bosibl i gyfrifo canlyniadau eleni, bydd angen i athrawon o fewn canolfannau gael sgysiau agored am gryfderau cymharol gwahanol ddysgwyr, yn enwedig er mwyn cyrraedd un drefn restrol ym mhob pwnc. Mae'n hanfodol felly eu bod yn cael llunio'u barnau proffesiynol heb rwystr gan unrhyw ddylanwadau allanol.
- 2.52 Credwn y gallai proses apelio sy'n rhoi cyfle i herio dyfarniadau canolfan atal athrawon rhag cael y trafodaethau anodd ond angenrheidiol hyn gyda chydweithwyr. Yn yr un modd, gallai athrawon gael eu rhwystro rhag cyflawni eu dyletswyddau yn wrthrychol pe byddent yn destun dylanwad allanol wrth iddynt lunio barn.
- 2.53 Gwnaethom nodi yn ein dogfen Gwybodaeth i Benaethiaid Canolfannau ganllawiau bras i gynorthwyo athrawon i lunio barnau proffesiynol a chanolfannau wrth gyflwyno data asesu canolfannau i CBAC wedyn. Fodd bynnag, ni wnaethom nodi, ac nid ydym yn credu ei bod yn ymarferol nac yn briodol nodi, unrhyw weithdrefn neu dystiolaeth benodol y mae'n rhaid ei defnyddio i gefnogi dyfarniadau proffesiynol.
- 2.54 Teimlwn pe byddem yn ceisio gwneud hynny, bod risg y gallem danseilio cywirdeb y wybodaeth a gyflwynir gan ganolfannau, oherwydd byddai angen i unrhyw ofyniad am set gyffredin o dystiolaeth fod yn gul i ganiatáu ar gyfer yr amrywiad eang rhwng canolfannau; byddai'r canolfannau hynny sydd â mwy o dystiolaeth yn cael eu hatal rhag ei defnyddio oherwydd yr angen i sicrhau cydraddoldeb â chanolfannau sydd â'r dystiolaeth leiaf.
- 2.55 Rydym hefyd o'r farn nad oes digon o amser ar gael i CBAC nodi proses briodol y gall pob canolfan gydymffurfio â hi, ac i ganolfannau roi'r broses honno ar waith, yn enwedig o gofio'r cyfyngiadau cyfredol ar weithrediadau arferol. Credwn y byddai amser ac adnoddau canolfannau yn cael eu gwasanaethu'n well wrth iddynt bennu a chyflwyno data graddau asesu canolfannau ar gyfer eu dysgwyr mewn modd amserol.

- 2.56 Ni fyddai unrhyw broses apelio sy'n ymwneud â gweithdrefnau canolfan yn effeithiol oni bai y gallai nodi a chywiro gwall gweithdrefnol a wnaed gan y ganolfan ac arwain at gyflwyno gradd asesu canolfan a/neu safle trefn restrol wahanol i CBAC.
- 2.57 Byddai gwneud newidiadau i wybodaeth yn ystod y broses safoni ystadegol yn gymhleth yn logistaidd ac yn ein barn ni, byddai'n creu risgiau annerbyniol i uniondeb a gweithrediad y broses honno. Pe bai hyn yn wir, byddai angen penderfynu ar unrhyw apêl yn erbyn gweithdrefnau canolfan cyn cyflwyno graddau asesu canolfannau a gwybodaeth trefn restrol i CBAC, yn yr un modd ag y mae'n rhaid cynnal adolygiad o ddeunydd asesu wedi'i farcio gan ganolfannau cyn cyflwynir marciau dros dro i'w cymedroli yn y gweithdrefnau cyfredol.
- 2.58 Er mwyn gallu gwneud newidiadau yn ystod y broses safoni ystadegol, byddai angen sefydlu cyfnod rhesymol o amser i ddysgwyr ystyried a ddylid apelio, ac i'r ganolfan neu CBAC benderfynu ar yr apeliadau hynny. Ni chredwn fod hyn yn ymarferol o ystyried yr amser cyfyngedig sydd ar gael, a chymhlethdod y dasg sy'n wynebu canolfannau wrth gasglu data asesu canolfannau a CBAC yn y gwaith o safoni ystadegol y graddau hynny.
- 2.59 Am y rhesymau hyn, credwn y byddai darparu cyfle i adolygu a chraffu ar ddyfarniadau proffesiynol a wneir gan athro neu ganolfan unigol i bennu graddau yn annymunol, yn amhriodol ac yn anymarferol yn yr amgylchiadau eithriadol presennol. Yn yr un modd, nid ydym o'r farn ei bod yn ymarferol nac yn effeithiol darparu ar gyfer apêl mewn perthynas â'r weithdrefn a ddefnyddir gan ganolfan ac y gallai caniatáu apêl o'r fath greu risgiau gweithredol annerbyniol i gyhoeddi canlyniadau'r haf hwn, yn ogystal â photensial am annhegwch.
- 2.60 Fodd bynnag, os yw canolfan yn canfod ei bod wedi gwneud gwall yn y data a gyflwynodd i CBAC, dylid caniatáu i'r ganolfan apelio ar y sail honno, ac y dylid cywiro unrhyw wallau a ganfyddir. Mae'n bwysig pwysleisio, o ystyried y disgwyliadau clir i ganolfannau sicrhau bod y data a gyflwynir nid yn unig yn gywir, ond hefyd ei fod wedi'i gefnogi gan ddatganiad Pennaeth Canolfan, rydym yn disgwyl i bydd y rhain yn achosion eithriadol. Lle bydd achosion o'r fath yn codi, disgwylir i ganolfannau gynhyrchu data o safon uchel a thystiolaeth gadarn i CBAC.
- 2.61 Er ein bod yn cynnig na fydd dysgwr sy'n credu ei fod wedi cael y radd anghywir yn gallu gofyn i'r ganolfan adolygu ei dyfarniadau, credwn y dylai dysgwr sy'n credu y gallai gwall fod wedi digwydd gan ganolfan wrth gyflwyno'r data i CBAC allu gofyn i'w ganolfan adolygu cywirdeb y data a gyflwynodd. Os bydd y ganolfan yn canfod iddi wneud gwall, neu ei bod yn ystyried bod CBAC wedi gwneud gwall yn y ffordd y prosesodd ddata'r ganolfan, dylai'r ganolfan gyflwyno apêl.

Cwestiwn ymgynghori:

Ni fydd dysgwyr sy'n anfodlon â'u canlyniadau'r haf hwn yn gallu apelio yn erbyn y dyfarniad proffesiynol a wnaed gan eu canolfan, neu'r weithdrefn a ddefnyddiwyd gan eu canolfan i ddod i'r dyfarniad hwn.

a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)

b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.

(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Gweithdrefnau CBAC

2.62 Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC fod â phroses ar waith, a dilyn y broses honno, i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried ar gyfer pob dysgwr.

2.63 Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallai CBAC wneud gwall a gwyro o'r broses y mae'n ei rhoi ar waith. Gallai hyn arwain at gyhoeddi canlyniadau y gallai canolfan, gan wybod y graddau asesu canolfan a gyflwynodd, eu hystyried yn rhai annisgwyl. Teimlwn ei bod yn rhesymol disgwyl y gallai canolfan apelio yn erbyn canlyniadau o'r fath, ar y sail y gallai CBAC fod wedi methu â chymhwyso ei weithdrefnau yn gyson, yn briodol neu'n deg.

2.64 O'r herwydd, rydym yn cynnig y gallai canolfan apelio i CBAC ar y sail:

- y gwnaethant ddefnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd pob un, rhai neu ddim ond un o'u dysgwyr, gan gynnwys oherwydd iddynt gyflwyno'r data anghywir;
- cafodd y graddau a gyfrifwyd ac a gynhyrchwyd gan y model eu dyrannu neu eu cyfleu'n anghywir i bob un, rhai neu ddim ond un o'u dysgwyr; a/neu
- y bu methiant gweithdrefnol arall gan CBAC.

2.65 Wrth ddylunio ein cynigion o amgylch y broses apelio ar gyfer cymwysterau yr effeithir arnynt, gwnaethom ystyried a ddylai canolfannau gael cyfle i apelio yn erbyn canlyniad y model safoni ystadegol mewn amgylchiadau lle na fu unrhyw gamgymeriad yn y weithdrefn a ddilwynwyd gan CBAC, ond mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd yn sylweddol anghydnaws â disgwyliadau'r ganolfan. Nid ydym yn cynnig caniatáu i apelïadau gael eu gwneud ar y sail hon. Byddai amrywio cymhwysiad y model safoni ystadegol ar gyfer un dysgwr neu garfan o ddysgwyr canolfan, o ganliad i apêl, yn annheg i ddysgwyr eraill, a byddai'n tanseilio'r ymdrechion i gynnal safonau eleni.

Cwestiwn ymgynghori:

Bydd canolfannau'n gallu apelio i CBAC ar y sail eu bod wedi defnyddio'r data anghywir wrth gyfrifo gradd, bod y graddau a gyfrifwyd ac a gynhyrchwyd gan y model safoni ystadegol wedi'u dyrannu neu eu cyfleu yn anghywir, a/neu bu methiant gweithdrefnol arall gan CBAC.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
 - b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)
- 2.66 Er mwyn i apêl fod yn effeithiol, bydd angen i'r ganolfan ddeall y gweithdrefnau sydd gan CBAC ar waith i bennu canlyniadau ar gyfer dysgwyr y ganolfan, yn ogystal â'r gweithdrefnau a ddilynwyd yn ei hachos, a'r wybodaeth a ddefnyddiwyd i lywio'r canlyniad.
- 2.67 Felly, yn ogystal â mynnu bod gan CBAC broses apelio weithdrefnol ar waith, credwn y dylid ei gwneud yn ofynnol i CBAC ddatgelu digon o wybodaeth i ganiatáu i ganolfan ystyried a ddylid bwrw ymlaen ag apêl. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylid gwneud datgeliad o'r fath ar gais, os yw'r ganolfan o'r farn bod y canlyniadau a gyhoeddwyd yn debygol o fod yn anghywir.
- 2.68 O'r herwydd, ni fydd yn bosibl i ddysgwyr unigol werthuso'r data oherwydd na fydd y wybodaeth gyd-destunol angenrheidiol ar gael iddynt. Er enghraifft, bydd y ganolfan yn gallu nodi a yw CBAC wedi defnyddio gwybodaeth cyrhaeddiad blaenorol anghywir ar gyfer rhai neu'r cyfan o'r garfan, tra na fydd dysgwr unigol yn gwneud hynny.
- 2.69 Yn ogystal, gallai penderfynu a ddylid gwneud cais am apêl gynnwys adolygu trefn restrol y ganolfan i sicrhau na wnaed unrhyw wall. Mae'r drefn restrol yn cynnwys data personol sy'n ymwneud â phob dysgwr yng ngharfan y ganolfan na ddylai dysgwyr gael mynediad iddi, oni bai bod caniatâd priodol wedi'i roi.
- 2.70 Am y rhesymau hyn, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol, ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir yr haf hwn, y dylai CBAC ystyried apelïadau a gyflwynir gan ganolfannau yn unig, ac nid y rhai a gyflwynir gan ddysgwyr unigol neu eu cynrychiolwyr.

Cwestiwn ymgynghori:

Ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir yr haf hwn, dylem ei gwneud yn ofynnol i CBAC ystyried apeliadau a gyflwynir gan ganolfannau yn unig, ac nid y rhai a gyflwynir gan ddysgwyr unigol.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)
- 2.71 Ar hyn o bryd mae ein Hamodau ar gyfer y cymwysterau yr effeithir arnynt yn ei gwneud yn ofynnol cywiro canlyniad anghywir a nodir trwy gymhwyso proses apelio p'un a yw'r canlyniad yn well neu'n waeth na'r canlyniad gwreiddiol.²⁰ Nid ydym yn credu bod unrhyw reswm i wneud unrhyw newidiadau i'r gofynion hyn yr haf hwn. Pan nodir canlyniad anghywir trwy gymhwyso'r broses apelio, dylid cywiro'r canlyniad p'un a yw'r canlyniad yn well neu'n waeth na'r canlyniad a gyhoeddwyd yn wreiddiol.
- 2.72 Rydym yn cydnabod y bydd CBAC yn dymuno sicrhau bod canolfannau'n hysbysu dysgwyr cyn cyflwyno unrhyw gais am apêl y gallai effeithio'n andwyol ar eu canlyniadau. Pan fydd y ganolfan yn ystyried bod gwall wedi'i wneud sy'n effeithio ar eu carfan gyfan, yna gallai canlyniadau pob dysgwr newid. Felly gallai CBAC ystyried y dylai'r ganolfan sicrhau caniatâd y garfan gyfan fel rhan o'r broses apelio. Fodd bynnag, ni chredwn fod angen adlewyrchu hyn yn ein fframwaith rheoleiddio.
- 2.73 Byddai natur y broses apelio yr ydym yn ei chynnig yr haf hwn yn golygu efallai na fyddai canolfannau'n gwybod a allai apêl a gyflwynir ar ran un dysgwr effeithio ar weddill carfan y ganolfan. Felly, gallai canolfannau bryderu y gallai fod angen caniatâd y garfan gyfan i alluogi un dysgwr i apelio. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, rydym yn bwriadu atal CBAC rhag gostwng graddau lle darganfyddir gwllau sy'n effeithio ar ddysgwyr heblaw'r rhai a enwir mewn apêl drwy'r broses apelio.

Cwestiwn ymgynghori:

Os yw proses apelio yn nodi gwall a fyddai'n arwain at radd is i ddysgwyr heblaw'r rhai a nodwyd yn yr apêl, yna ni ddylai CBAC ostwng y graddau hyn.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?

²⁰ Nodwn fod eithriad ar hyn o bryd ar gyfer adolygiadau ac apeliadau ynghylch canlyniad cymedroli.

(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)

- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)
- 2.74 O dan ein rheolau cyfredol ar gyfer y cymwysterau yr effeithir arnynt, mae'n ofynnol i CBAC sicrhau bod pob penderfyniad apêl yn cael ei gymryd gan bobl nad oeddent yn flaenorol yn rhan o'r broses a fu'n arwain at gyhoeddi canlyniadau.
- 2.75 Bydd canlyniadau'r haf hwn yn cael eu cyhoeddi yn dilyn proses safoni ystadegol newydd a chymhleth sy'n debygol o gael ei deall yn llawn gan gronfa fwy cyfyngedig o bobl nag o dan drefniadau arferol. O'r herwydd, efallai na fydd CBAC yn gallu sicrhau ym mhob achos bod aelodau digonol o staff ar gael sy'n ddigon cyfarwydd â'r broses ganlyniadau eleni, ac nad oedd ganddynt unrhyw ran ychwaith wrth gyfrifo canlyniad penodol, na set o ganlyniadau.
- 2.76 O ystyried yr amgylchiadau eithriadol yr haf hwn, nid ydym o'r farn ei bod yn briodol cynnal ein gofynion sydd wedi'u cynllunio ar gyfer trefniadau arferol. Fodd bynnag, i sicrhau tegwch i bob dysgwr, bydd angen cadw lefel ddigonol o annibynniaeth a didueddrwydd ar ran aelodau staff CBAC sy'n trin apeliadau.
- 2.77 O'r herwydd, rydym yn cynnig ei gwneud yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob penderfyniad apêl yn cael ei gymryd gan bobl nad oeddent yn flaenorol yn rhan o'r broses a fu'n arwain at gyhoeddi'r canlyniadau hynny.

Cwestiwn ymgynghori:

Dylid bod yn ofynnol i CBAC gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pob penderfyniad apêl yn cael ei gymryd gan bobl nad oeddent yn flaenorol yn rhan o'r broses a fu'n arwain at gyhoeddi'r canlyniadau hynny.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)
- 2.78 O ystyried yr amgylchiadau, gallai CBAC benderfynu yn rhesymol cynnal adolygiad gweinyddol, efallai'n cynnwys aelod o staff sy'n gyfarwydd â'r model safoni ystadegol, fel cam rhagarweiniol mewn unrhyw gais am apêl. Byddai hyn yn eu galluogi i nodi a

chwyro'n gyflym unrhyw achosion lle gwnaed gwall. Credwn y dylai CBAC allu cywiro gwall o dan yr amgylchiadau hyn, heb yr angen am broses apelio ffurfiol.

- 2.79 Os bydd CBAC yn ystyried na wnaed unrhyw wall, neu os yw'r ganolfan o'r farn bod gwall wedi parhau neu wedi'i achosi gan unrhyw gywiriad ar ôl adolygiad gweinyddol, credwn er budd dysgwyr, ac yn gyson â chynnal safonau, y dylai fod yn ofynnol i CBAC fod â phroses apelio ffurfiol ar waith. Yn gyson â'n rheolau cyfredol, rydym o'r farn y dylai'r broses ffurfiol gynnwys penderfynwr annibynnol nad yw'n gyflogai i CBAC, asesydd yn gweithio iddynt, neu rywun sydd â chysylltiad â hwy fel arall.
- 2.80 Fodd bynnag, nid ydym o'r farn y bydd angen dilyn y gwrandawriad apêl ffurfiol o reidrwydd mewn ffordd debyg i'r hyn a ddisgrifir yn apêl Cam 2 JCQ gyfredol.²¹ Efallai y bydd proses symlach lle mae'r penderfynwr annibynnol yn ystyried adroddiad gan yr aelod staff sy'n cynnal yr adolygiad gweinyddol ac unrhyw sylwadau a wneir gan y ganolfan yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw, yn briodol o ystyried amgylchiadau eithriadol yr haf hwn.

Cwestiwn ymgynghori:

Dylid caniatáu i CBAC redeg proses symlach lle mae'r penderfynwr yn ystyried adroddiad gan yr aelod staff sy'n cynnal yr adolygiad gweinyddol ac unrhyw sylwadau a wneir gan y ganolfan yng ngoleuni'r adroddiad hwnnw.

- a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
- b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi

- 2.81 Mewn blynyddoedd blaenorol, pe bai dysgwr neu ganolfan, ar ôl derbyn penderfyniad apêl terfynol CBAC, yn credu bod CBAC wedi methu â dilyn, neu gymhwyso'n briodol, weithdrefnau angenrheidiol wrth farcio neu ddyfarnu rhai cymwysterau rheoledig,²² gallai droi at ein Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS).²³

²¹ Joint Council for Qualifications (JCQ) (2019) *A guide to the awarding bodies appeals processes: Effective from 15 August 2019*
<https://www.jcq.org.uk/Download/exams-office/appeals/jcq>

²² Cymwysterau TGAU, TAG a Thystysgrif Her Bagloriaeth Cymru Cymeradwy

²³ Cymwysterau Cymru (2019) *Y gwasanaeth adolygu gweithdrefnau arholi*
<https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/exam-procedures-review-service-appeal-process/>

- 2.82 Ar hyn o bryd, mae ein EPRS yn ystyried a yw CBAC wedi dilyn ei brosesau yn deg, ac a yw wedi cydymffurfio â'i Amodau Cydnabod wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar ganlyniadau. Nid yw'r broses EPRS yn ail-farcio sgriptiau arholiad ac ni all newid y marc neu'r radd a ddyfarnwyd i ddysgwyr, na mynnu bod y corff dyfarnu yn gwneud hynny.
- 2.83 Yn unol â'n cynigion ynghylch y broses apelio, bydd yr EPRS ar gael i ganolfannau ar gyfer canlyniadau a gyhoeddir yr haf hwn yn unig. Bydd yr EPRS yn adolygu a ystyriodd CBAC yr apêl yn iawn ac, a gafodd unrhyw wall a nodwyd yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau a gyfrifwyd a/neu yn y radd/graddau a gyhoeddwyd ei gywiro'n iawn.
- 2.84 Ni fydd yn ystyried ceisiadau mewn perthynas â'r dyfarniadau proffesiynol, academiaidd sy'n sail i raddau asesu canolfannau a threfn restrol, y broses a ddilynir gan ganolfannau, neu'r model safoni ystadegol a ddefnyddir gan CBAC i safoni data'r ganolfan.
- 2.85 Rydym yn cynnig datgymhwyso'r EPRS cyfredol ac amlinellu'r weithdrefn mewn dogfen reoleiddio newydd²⁴ a fydd yn parhau mewn grym tan ddyddiad a bennir gan Cymwysterau Cymru.

Cwestiwn ymgynghori:

Unig swyddogaethau'r Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholi (EPRS) yr haf hwn fydd adolygu:

- 1. i ba raddau yr oedd CBAC yn cydymffurfio â'n gofynion ac â'u polisïau a'u gweithdrefnau eu hunain, neu**
- 2. os nodwyd unrhyw wall yn y data a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r radd/graddau a gyfrifwyd a/neu yn y radd/graddau a gyhoeddwyd, p'un a gafodd y gwall hwnnw ei gywiro'n iawn.**
 - a. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig hwn?
(Cytuno'n gryf, cytuno, cytuno'n rhannol ac anghytuno'n rhannol, anghytuno, anghytuno'n gryf, ddim yn siŵr)
 - b. Esboniwch yn glir y rhesymau dros eich ateb yn y gofod isod.
(Os ydych wedi anghytuno neu anghytuno'n gryf, amlinellwch yr hyn yr ydych chi'n ei ystyried yn ddewis arall neu'n ateb addas, lle bo hynny'n bosibl.)

²⁴ Dogfen reoleiddio, neu ran o ddogfen reoleiddio, dogfen sy'n ymddangos mewn dogfen o'r enw'r 'Rhestr Dogfennau Rheoleiddio', y gellir ei chyhoeddi gan Gymwysterau Cymru ac a all gael ei hamrywio a'i disodli gan Gymwysterau Cymru o bryd i'w gilydd.

3. Asesiad Effaith Integredig

- 3.1 Mae'r adran hon yn nodi'r asesiad effaith integredig o'n cynigion a amlinellwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r adran hon mewn tair rhan ac mae'n cynnwys ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol (AERh), Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 3.2 Mae Asesiad Effaith Integredig (IIA) yn asesiad o effeithiau tebygol ein gweithgarwch rheoleiddio. Mae'n rhaid i ni gynnal ein gweithgareddau rheoleiddio mewn ffordd sy'n dryloyw, yn atebol, yn gymesur, wedi'i dargedu ac sy'n gyson, ac sy'n ystyried polisi'r Llywodraeth yn unol â chyfarwyddyd Gweinidogion Cymru.
- 3.3 Drwy ein IIA, rydym yn dangos ein bod yn rheoleiddio yn unol â'n prif nodau, a'r wyth mater y mae'n rhaid i ni eu hystyried, fel yr amlinellir yn Neddf Cymwysterau Cymru (2015), yn ogystal ag yn unol ag egwyddorion rheoleiddio gwell²⁵ a chanllawiau Trysorlys EM.
- 3.4 Rydym wedi cynnwys cwestiynau ar yr effeithiau a nodwyd gennym, ac rydym yn croesawu adborth arnynt.
- 3.5 Mae'r asesiad effaith hwn yn ymdrin â'r cynigion a gynhwysir yn y ddogfen ymgynghori yn unig. Y rhain yw:
 - cyflwyno nodau i danategu'r model safoni ystadegol ar gyfer cyhoeddi graddau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020; a
 - chyflwyno proses apelio benodol ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020.
- 3.6 Dylid darllen ein hasesiad yng nghyd-destun yr amgylchiadau eithriadol yr haf hwn, sy'n cynnwys penderfyniad Gweinidog Addysg Cymru i gau ysgolion a chanslo cyfres arholiadau haf 2020 a'r cyfarwyddyd a roddwyd i ni o dan adran 53 o Ddeddf Cymwysterau Cymru i roi sylw dyledus i bolisi'r Llywodraeth.
- 3.7 Mae unrhyw benderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, CBAC a phenderfynwyr allweddol eraill y tu hwnt i gwmpas yr asesiad hwn. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, penderfyniadau sy'n ymwneud â chanslo cyfres arholiadau'r haf hwn a chau ysgolion, colegau a chanolfannau arholiadau.

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 3.8 Fel corff cyhoeddus, mae'n ofynnol i ni asesu effaith debygol – cadarnhaol a negyddol – ein penderfyniadau rheoleiddio. Mae'r adran hon yn nodi effeithiau tebygol ein cynigion – rhai cadarnhaol a negyddol.

²⁵ Great Britain, Department for Business, Energy and Industrial Strategy (2020) *Better Regulation Framework: Interim Guidance* https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/872342/better-regulation-guidance.pdf

Yr effaith ar ddysgwyr

- 3.9 Bydd dysgwyr y cymwysterau perthnasol yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y trefniadau dyfarnu arfaethedig ar gyfer yr haf hwn. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau, cyn belled ag y bo modd yn y cyd-destun presennol, nad ydynt o dan anfantais a bod cyn lleied â phosibl o darfu ar eu cynnydd bwriadedig.
- 3.10 Er na fydd dysgwyr yn sefyll arholiadau fel y disgwylid, bydd y rhan fwyaf yn derbyn graddau fel arfer ar y dyddiad disgwylid ym mis Awst. Bydd gan y graddau a ddyfernir i ddysgwyr yr haf hwn yr un statws â'r graddau a ddyfarnwyd mewn blynyddoedd blaenorol a dylai prifysgolion, colegau a chyflogwyr eu trin fel hyn er mwyn i ddysgwyr allu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu bywydau.
- 3.11 Rydym yn deall y gall fod effeithiau negyddol, gan gynnwys effeithiau ariannol posibl, ar ddysgwyr nad ydynt yn cael y graddau sydd eu hangen arnynt er mwyn symud ymlaen yn ôl eu bwriad. Byddant yn cael cyfle i sefyll arholiadau yn y gyfres arholiadau a drefnwyd ar gyfer mis Tachwedd 2020²⁶ neu yn haf 2021; fodd bynnag, bydd hyn yn arafu eu cynnydd. Gallai hyn hefyd gynnwys rhai ymgeiswyr preifat na ellir cyfrifo gradd ar eu cyfer.
- 3.12 Rydym yn ymwybodol o'r ffaith efallai fod ymgeiswyr preifat eisoes wedi talu ffioedd i ganolfannau ar gyfer arholiadau'r haf. Rydym wedi esbonio'r opsiynau'r ydym yn eu hystyried ar gyfer ymgeiswyr preifat. Byddwn yn gofyn i sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr addysg uwch a phellach ystyried y camau y gallai darparwyr eu cymryd wrth wneud penderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion yr haf hwn ar gyfer unrhyw ymgeiswyr preifat nad ydynt yn cael gradd.
- 3.13 Yn amlwg, mae hwn yn gyfnod cythryblus i ddysgwyr, ac mae'r ansicrwydd ynghylch arholiadau a sut y caiff y graddau hynny eu cyhoeddi yn debygol o fod wedi cael effaith ar eu lles. Drwy gydol y cyfnod hwn canolbwyntiwyd ar sefydlu dull ar gyfer cyfres arholiadau'r haf sydd mor deg â phosibl i ddysgwyr ac sydd er eu lles pennaf o ran eu cynnydd tuag at waith, addysg neu hyfforddiant. Rydym wedi gwneud ymdrech ar y cyd i gyfathrebu â dysgwyr drwy wahanol sianeli yn rheolaidd, ac i roi'r sicrwydd y gallant fod yn hyderus yn y broses ddyfarnu a gaiff ei defnyddio eleni.

Yr effaith ar ganolfannau

- 3.14 Rydym yn disgwyl y bydd beichiau gweinyddol a chostau untro, uniongyrchol i ganolfannau yn gysylltiedig â'r gweithgareddau canlynol:
- ymgyfarwyddo â'n pecyn Gwybodaeth i Ganolfannau ar gyflwyno Graddau Asesu Canolfannau, ac unrhyw gyfathrebiadau ychwanegol gan CBAC;

²⁶ TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg-Rhifedd a TGAU Saesneg Iaith

- cyfathrebu a hyfforddiant ar gyfer staff addysgu ar sut i ddyfarnu graddau asesu canolfannau a phenderfynu ar drefn restrol;
 - trafodaethau adrannol i roi'r sicrwydd sydd ei angen i Bennaeth y Ganolfan er mwyn llofnodi'r datganiad;
 - diwygiadau i systemau canolfannau er mwyn galluogi i'r wybodaeth ofynnol gael ei chasglu a'i storio, ynghyd â chadw tystiolaeth ategol;
 - addasiadau er mwyn galluogi cyflwyno data i CBAC mewn fformat a bennir ganddynt hwy;
 - rheoli niferoedd uchel o ymholiadau gan ddysgwyr, rhieni a gofalmwr; ac
 - ymgylfarwyddo a chyflwyno apeliadau yn unol â'r trefniadau apelio diwygiedig a gytunwyd ar ôl yr ymgynghoriad.
- 3.15 Bydd canolfannau'n cyflwyno hyn yn lle, ac nid yn ychwanegol at, yr ystod arferol o weithgarwch sydd ei angen i gyflawni arholiadau haf yn eu canolfan gan gynnwys, er enghraifft, trafod papurau a sgriptiau arholiadau yn ddiogel, goruchwyllo arholiadau ac ymdrin ag unrhyw achosion o gamymddwyn a chamweinyddu posibl sy'n codi yn ystod y broses arferol o gyflwyno arholiadau.
- 3.16 Rydym yn cydnabod y gallai'r baich o gyflawni'r trefniadau diwygiedig fod yn fwy ac yn fwy heriol ar gyfer canolfannau lle mae coronafeirws yn effeithio ar argaeledd staff a lle mae canolfannau wedi cau i atal trefniadau addysgu arferol.

Yr effaith ar CBAC

- 3.17 Mae'r trefniadau arfaethedig a amlinellir yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymwysterau TGAU, UG, Safon Uwch, a Thystysgrif Her Sgiliau Cymeradwy, a chymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch etifeddol sy'n parhau i fod ar gael i ddysgwyr yng Nghymru. Mae CBAC yn darparu'r holl gymwysterau hyn.
- 3.18 Rydym yn ymwybodol o'r costau y bydd CBAC yn eu hysgwyddo wrth ddarparu adnoddau ychwanegol i gefnogi dysgu o bell ar gyfer dysgwyr blwyddyn 10 a blwyddyn 12 o ganlyniad i benderfyniad y Gweinidog i gau ysgolion.
- 3.19 O ganlyniad i'r cynigion sydd wedi'u cynnwys yn yr ymgynghoriad hwn, disgwylwn y bydd costau a beichiau gweinyddol uniongyrchol, untro i CBAC yn gysylltiedig â'r gweithgareddau canlynol:
- ymgylfarwyddo â'r diwygiadau angenrheidiol i'n fframwaith rheoleiddio. Mae hyn yn cynnwys ein Hamodau Cydnabod Safonol, Amodau ar gyfer cymwysterau yr effeithir arnynt ac unrhyw Ddogfen Reoleiddiol arall;
 - ymgylfarwyddo â'n pecyn Gwybodaeth i Bennaethiaid Canolfannau ynghylch darparu graddau asesu canolfannau a threfn restrol;
 - cyfleu gofynion i ganolfannau;
 - datblygu a chyflawni prosesau a systemau ar gyfer casglu graddau asesu canolfannau a threfn restrol gan ganolfannau;

- atal, canfod ac ymchwilio i unrhyw achos o gamymddwyn neu gamweinyddu sy'n ymwneud â darparu graddau asesu canolfannau a threfn restrol;
- addasiadau i systemau i'w galluogi i safoni graddau asesu canolfannau yn unol â'r model y cytunwyd arno ar ôl yr ymgynghoriad;
- cyflwyno canlyniadau yn unol â'r trefniadau newydd;
- rheoli niferoedd uwch o ymholiadau gan ganolfannau ac ymgeiswyr oherwydd y trefniadau eithriadol;
- ymgyfarwyddo â'r trefniadau apelio diwygiedig a gytunwyd ar ôl yr ymgynghoriad, a'u cyflawni;
- asesu'r costau sydd wedi newid – rhai is ac uwch – a gwneud unrhyw addasiadau i ffioedd yn dilyn hynny, gan gynnwys y ffioedd a allai fod wedi cael eu talu eisoes gan ganolfannau; a
- chyflwyniadau data ychwanegol a/neu ddiwygiedig i Cymwysterau Cymru.

3.20 Rydym wedi cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer canolfannau, yn ogystal ag ystod o gyfathrebiadau ar gyfer rhieni, gofalwyr a dysgwyr. Dylai hyn helpu i leihau'r baich ar CBAC o ran cyfathrebu'r trefniadau diwygiedig – er ein bod yn credu ei bod yn debygol y bydd llawer o ganolfannau a dysgwyr am gysylltu â nhw er mwyn trafod eu hamgylchiadau unigol.

3.21 Fel gyda'r canolfannau, bydd CBAC yn cyflwyno hyn yn lle, ac nid yn ychwanegol at, y trefniadau arferol ar gyfer cynnal arholiadau; yn hytrach, maent yn disodli'r trefniadau hynny.

3.22 Mae amrywiaeth o weithgareddau y byddai CBAC fel arfer yn ymgymryd â hwy yr haf hwn, na fyddant yn eu gwneud, neu y byddant yn eu gwneud mewn ffordd wahanol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- argraffu, danfon, casglu a sganio papurau a sgrïptiau arholiad;
- penderfyniadau ar, a gweithredu ceisiadau am ystyriaeth arbennig ac addasiadau rhesymol;
- nodi ac ymchwilio i achosion o gamymddwyn a chamweinyddu sy'n codi mewn trefniadau cyflwyno arholiadau arferol;
- cymedroli asesiadau wedi'u marcio gan ganolfannau;
- marcio sgrïptiau – gan gynnwys trefniadau sicrhau ansawdd, recriwtio arholwyr, a safoni;
- cyfarfodydd dyfarnu; ac
- adolygiadau o waith marcio, gwaith cymedroli ac apeliadau.

3.23 Mae'n bosibl yr aed i gostau sy'n gysylltiedig â rhai o'r gweithgareddau hyn cyn y penderfyniad i ganslo arholiadau ac felly fe'u hystyrir yn gostau suddedig. Efallai y bydd costau eraill eisoes wedi'u hymrwymo'n gytundebol ac felly efallai na ellir eu hadennill yn llawn neu'n rhannol. Gallai'r rhybudd hwyr ynghylch canslo'r gyfres ddwysáu hyn.

3.24 Rydym hefyd yn cydnabod y gallai'r baich o gyflawni'r trefniadau diwygiedig fod yn fwy ac yn fwy heriol i CBAC lle mae'r coronafeirws yn effeithio ar argaeledd staff.

Yr effaith ar golegau, prifysgolion a chyflogwyr

3.25 Mae'n debygol y byddai effeithiau negyddol sylweddol ar golegau addysg bellach, prifysgolion a chyflogwyr pe na bai niferoedd mawr o ddysgwyr yn gallu symud ymlaen yn ôl y bwriad yn 2020. Serch hynny, nod ein trefniadau arfaethedig yw sicrhau bod cynifer o ddysgwyr â phosibl yn cael gradd ar y dyddiadau canlyniadau arferol.

Cwestiwn ymgynghori:

Yn yr adran hon, rydym wedi nodi'r effeithiau rheoleiddiol yr ydym yn eu rhagweld yn sgil y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, nodwch yn glir pa gynnig/cynigion yr ydych yn cyfeirio ato/atynt.*

1. O ran yr effeithiau rheoleiddiol a nodwyd gennym yn yr adran hon, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i'w lleihau? Os felly, amlinellwch y camau hyn yn y gofod isod.
- 2a. A oes unrhyw effeithiau rheoleiddiol cadarnhaol neu negyddol **eraill** (bwriadol neu anfwriadol) nad ydym eisoes wedi'u nodi? *(Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod)*
 - i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
 - ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
 - iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
 - iv. Ddim yn siŵr
- 2b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

3.26 Fel corff cyhoeddus, mae gennym ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010²⁷ i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth gyflawni ein swyddogaethau:

- (i) dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf;
- (ii) hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu, a

²⁷ Prydain Fawr (2010) *Deddf Cydraddoldeb 2010* <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/contents>

- (iii) meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

- 3.27 Diben yr asesiad hwn yw nodi a yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith (cadarnhaol neu negyddol) neu effeithiau gwahanol ar wahanol grwpiau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig a nodir gan y Ddeddf.
- 3.28 Rydym wedi ystyried effaith bosibl y cynigion a gynhwysir yn yr ymgynghoriad hwn ar unigolion sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- 3.29 Credwn fod dwy elfen yn ein cynigion sy'n gofyn am ystyriaeth bellach o safbwynt cydraddoldeb:
- y defnydd o raddau asesu canolfannau a threfn restrol i helpu i gyfrifo canlyniadau dysgwyr; ac
 - y ffaith, am amryw o resymau, na fydd rhai dysgwyr o bosibl yn gallu derbyn gradd asesu canolfan a threfn restrol.

Y defnydd o raddau asesu canolfannau a threfn restrol i helpu i gyfrifo graddau

- 3.30 Mae anghydraddoldebau o ran cyflawniad addysgol yng Nghymru yn bodoli, yn enwedig yn gysylltiedig â rhyw, ethnigrwydd, anabledd a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Rydym yn ymwybodol bod pryderon penodol ynglŷn â thegwch y trefniadau eithriadol yr haf hwn a sut y gallai'r trefniadau gynyddu anfantais i rai grwpiau o ddysgwyr o ran eu cyflawniad addysgol.
- 3.31 Yn ein nodau, rydym yn datgan ein bod am i ganlyniadau fod yn eithaf tebyg eleni i flynyddoedd blaenorol, ac i ddysgwyr gael y radd y byddent yn fwyaf tebygol o fod wedi'i chael pe baent wedi sefyll yr arholiadau. Felly, ein bwriad yw i'r trefniadau fod mor deg â phosibl i bob dysgwr ac i'r gwahaniaethau nodweddiadol o ran dosbarthiad graddau fod yn weddol debyg eleni i flynyddoedd blaenorol.
- 3.32 Fel yr esboniwyd yn y rhesymeg a ddarparwyd ar gyfer pob un o'r nodau arfaethedig sy'n sail i'r model safoni ystadegol, mae'r defnydd o ddata asesu canolfannau yn rhan hanfodol o'r dull ar gyfer cyfrifo graddau'r haf hwn.
- 3.33 Er ein bod yn hyderus bod athrawon mewn sefyllfa dda i lunio barn am berfformiad y rhan fwyaf o'u dysgwyr, mae'n anochel y bydd barn asesu canolfannau yn fwy goddrychol na graddau sy'n seiliedig ar asesiadau ffurfiol. Fel gydag unrhyw farn, mae risg y gallai rhywfaint o ragfarn ymwybodol neu anymwybodol fodoli a allai roi dysgwyr sy'n rhannu nodwedd warchoddedig benodol dan anfantais.
- 3.34 Fel yr amlinellwyd yn Nod 4, nid yw'r dystiolaeth a ganfuwyd fel rhan o adolygiad llenyddiaeth Ofqual ar ddibynadwyedd barn athrawon ar wahanol grwpiau o ddysgwyr yn bendant. Mae tystiolaeth o ymchwil ehangach am ddibynadwyedd asesiadau

athrawon yn gyffredinol hefyd yn amhendant i raddau helaeth, gyda rhai elfennau o oramcangyfrif perfformiad a rhai o danamcangyfrif. Ar y cyfan, cymysg yw'r dystiolaeth o'r tebygolrwydd o ragfarn mewn graddau asesu canolfannau a threfn restrol. Mae rhywfaint o dystiolaeth yn awgrymu bod graddau asesiadau canolfannau yn debygol o gael eu chwyddo, ond y gall athrawon roi trefn restrol ar eu dysgwyr mewn modd dibynadwy.

- 3.35 Gofynnir i ganolfannau gyflwyno data a dynnwyd o weithgareddau addysgu, dysgu ac asesu ffurfiannol arferol dros y flwyddyn, neu flynyddoedd, academaidd. Bydd hyn wedi bod yn ddarostyngedig i bolisiau a gweithdrefnau arferol y ganolfan, y byddai disgwyl iddynt fod wedi cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus²⁸.
- 3.36 Yn ogystal, rydym wedi cynnig ffyrdd o ddiogelu uniondeb graddau asesu'r canolfannau a'r drefn restrol rhag dylanwad neu bwysau a roddir gan, neu ar ran, dysgwyr unigol a rhieni neu ofalwyr. Bydd hyn yn lleihau'r risg y bydd graddau neu safle rhai dysgwyr yn y drefn restrol yn cael eu chwyddo'n annheg er anfantais i eraill. Rydym hefyd wedi egluro bod y dull arfaethedig o ran safoni ystadegol wedi cael ei nodi gydag ystyriaeth o ddileu unrhyw ragfarn mewn graddau asesu canolfannau.
- 3.37 Rydym wedi amlinellu yn Nod 4 pam bod angen data trefn restrol yr haf hwn, fel y gellir lleihau'r gwahaniaethau o ran llymder neu haelioni ar lefel canolfannau cyfan drwy'r broses safoni yn niffyg unrhyw weithdrefnau i safoni barn rhwng canolfannau yr haf hwn.
- 3.38 Byddwn yn sicrhau bod data asesu canolfannau'n cael ei wirio gan CBAC cyn gynted â phosibl ar ôl ei ddarparu i weld a oes dystiolaeth bod bylchau cyrhaeddiad sy'n gysylltiedig â nodweddion dysgwyr wedi newid yn sylweddol o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bydd y dystiolaeth honno'n cael ei defnyddio i helpu CBAC a ninnau i gadarnhau ein dull o gyfrifo graddau a dewis y model safoni ystadegol terfynol. Fel yr amlinellwyd gennym yn Nod 4, rydym yn credu y dylai gwaith safoni ystadegol gan ddefnyddio canlyniadau hanesyddol canolfannau a thystiolaeth o gyrhaeddiad blaenorol dysgwyr, wedi'i gymhwyso i drefn restrol dysgwyr a ddarperir yn nata asesu canolfannau, sicrhau nad yw graddau a gyfrifwyd yn cynnwys gwahaniaethau sylweddol yn y canlyniadau ar gyfer grwpiau â nodweddion gwarchoddedig o gymharu â'r canlyniadau a welir pan fydd arholiadau'n cael eu sefyll. Dylai hyn olygu nad yw dysgwyr mewn grwpiau â nodweddion gwarchoddedig yn profi mwy o anfantais yr haf hwn.
- 3.39 Yn Nod 4, disgrifiwyd hefyd nifer o resymau pam nad ydym yn bwriadu addasu mwy ar y graddau cyfrifedig sy'n gysylltiedig â nodweddion ymgeiswyr, y tu hwnt i dystiolaeth o gyrhaeddiad. O ystyried yr amgylchiadau rhyfeddol, credwn mai'r ffordd fwyaf dibynadwy o sicrhau bod dysgwyr yn ennill gradd eleni yw trwy ddefnyddio graddau asesu canolfannau a threfn restrol i gynorthwyo'r gwaith o gyfrifo graddau'r haf hwn.

²⁸A.149(1) Deddf Cydraddoldeb 2010

Dysgwyr na fyddant efallai'n gallu derbyn gradd asesu canolfan a safle trefn restrol

3.40 Fel yr esboniwyd yn flaenorol, rydym yn hyderus bod athrawon mewn sefyllfa dda i lunio barn am berfformiad y rhan fwyaf o'u dysgwyr, ond mae'n debygol y bydd dau grŵp o ddysgwyr nad yw hyn o reidrwydd yn wir amdanynt:

- dysgwyr nad ydynt yn mynychu ysgolion/ colegau (er enghraifft, oherwydd eu bod yn cael eu haddysgu gartref neu eu bod yn ddysgwyr sy'n oedolion sy'n astudio ar eu pennau eu hunain); a
- dysgwyr nad ydynt wedi bod yn eu canolfannau presennol yn ddigon hir i athrawon lunio barn (er enghraifft, dysgwyr o gymunedau Sipsiwn Roma a Theithwyr neu geiswyr lloches sy'n ffoaduriaid).

3.41 O ganlyniad, efallai na fydd yn bosibl darparu gradd asesu canolfan a threfn restrol i rai dysgwyr. Efallai na fydd y dysgwyr hyn yn gallu derbyn gradd wedi'i chyfrifo yr haf hwn. Mae'r dybiaeth hon yn achosi nifer o effeithiau posibl o safbwynt cydraddoldeb, gan fod y grwpiau hyn o ddysgwyr yn debygol o gynnwys nifer anghymesur sy'n rhannu rhai nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn ystyried yn ofalus beth y gallem ei wneud i liniaru'r anfantais bosibl hon i'r dysgwyr hyn.

3.42 Byddwn yn gofyn i sefydliadau sy'n cynrychioli darparwyr addysg uwch a phellach ystyried y camau y gallent eu cymryd wrth wneud penderfyniadau ynghylch derbyn myfyrwyr yr haf hwn ar gyfer unrhyw ddysgwyr nad ydynt yn cael gradd. Rydym hefyd wedi gofyn i CBAC ystyried yr holl opsiynau posibl o ran dod o hyd i ffyrdd o ddarparu graddau ar gyfer dysgwyr yn y sefyllfaoedd hyn yr haf hwn.

3.43 Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod o'r cychwyn nad oes ateb hawdd yn hyn o beth. Yn anffodus, os nad oes gan ganolfannau'r dystiolaeth i lunio barn sicr ar gyfer dysgwr, ni fydd gan CBAC unrhyw wybodaeth i allu dyfarnu cymhwyster yn unol â'r safon briodol.

3.44 Bydd y dysgwyr hyn yn gallu sefyll arholiadau mewn cymwysterau TGAU penodol yn ystod y gyfres a drefnwyd ar gyfer Tachwedd 2020²⁹, ac ar gyfer unrhyw gymwysterau eraill yn haf 2021. Felly, byddant yn cael cyfle yn y pen draw i ennill y cymwysterau y maent wedi bod yn astudio ar eu cyfer. Fodd bynnag, yn y tymor byr gallent fod o dan anfantais sylweddol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o'u cyfoedion (y gallent fod yn cystadlu am gyfleoedd â hwy), ni fydd ganddynt ganlyniadau y gallai fod eu hangen arnynt i symud ymlaen i gyflogaeth, astudiaeth ôl-16 neu addysg uwch ar hyn o bryd.

²⁹ TGAU Cymraeg Iaith, TGAU Mathemateg, TGAU Mathemateg-Rhifedd, TGAU Saesneg Iaith

Cwestiwn ymgynghori:

Yn yr adran hon, rydym wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, nodwch yn glir pa gynig/cynigion yr ydych yn cyfeirio ato/atynt.*

1. O ran yr effeithiau a nodwyd gennym yn yr adran hon, a oes unrhyw gamau ychwanegol y gallem eu cymryd i'w lleihau? Os felly, amlinellwch y camau hyn yn y gofod isod.
- 2a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol **eraill** (bwriadol neu anfwriadol) ar unigolion neu grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig nad ydym wedi'u nodi? (*Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod.*)
 - i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
 - ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
 - iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
 - iv. Ddim yn siŵr
- 2b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

- 3.45 Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 y gofyniad i gyrff y sector cyhoeddus baratoi Cynlluniau Iaith Gymraeg a darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Dilynwyd hyn yn 2011 gyda chyflwyno Mesur y Gymraeg (Cymru)³⁰.
- 3.46 Rhoddodd y Mesur hwn statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a chyflwynodd ddyletswyddau ar gyrff i ddefnyddio'r Gymraeg fel y disgrifir yn Safonau'r Gymraeg. Cyflwynodd hefyd yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- 3.47 Wrth ystyried yr hyn sy'n briodol at ddibenion cyflawni ein prif nodau, mae'n rhaid i ni ystyried pa mor ddymunol yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, (gan gynnwys trwy argaeledd asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg) a chymwysterau sydd fel arall yn hyrwyddo neu'n hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg.

³⁰ Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2011) *Mesur y Gymraeg (Cymru) (2011)*

<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/contents/enacted>

- 3.48 Yn unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg³¹ a'n hymrwymiad i'r iaith Gymraeg, rydym yn asesu effaith bosibl (cadarnhaol a negyddol) ein penderfyniadau rheoleiddio ar y Gymraeg.
- 3.49 Yn yr adran hon rydym yn ystyried y goblygiadau y gallai ein cynigion eu cael ar y Gymraeg. Drwy ein hymgyngghoriad, byddwn yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac yn annog pob ymatebydd i roi adborth ar ein hasesiad.
- 3.50 Bydd cymwysterau a gymerir gan y sawl y mae'n well ganddynt gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu dyfarnu yn yr un modd â'r rhai y mae'n well ganddynt gael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg. Felly, nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau tebygol (cadarnhaol neu negyddol) ar y Gymraeg sy'n deillio o'r cynigion a geir yn y ddogfen ymgynghori hon.

Cwestiwn ymgynghori:

Yn yr adran hon, rydym wedi ystyried effeithiau posibl y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn ar yr iaith Gymraeg. *Wrth ymateb i'r cwestiynau canlynol, nodwch yn glir pa gynnig/cynigion yr ydych yn cyfeirio ato/atynt.*

- 1a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (bwriadol neu anfwriadol) ar **gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg** nad ydym wedi'u nodi? (*Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod*)
- i. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
 - ii. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
 - iii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
 - iv. Ddim yn siŵr
- 1b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.
- 2a. A oes unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol (bwriadol neu anfwriadol) mewn perthynas â **pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** nad ydym wedi'u nodi? (*Os ydych chi wedi nodi effeithiau cadarnhaol a negyddol, dewiswch y ddau opsiwn yn y rhestr isod*)
- v. Oes, mae effeithiau cadarnhaol eraill
 - vi. Oes, mae effeithiau negyddol eraill
 - vii. Na, nid oes unrhyw effeithiau eraill
 - viii. Ddim yn siŵr

³¹ Cymwysterau Cymru (2019) *Cynllun Iaith Gymraeg*

<https://www.qualificationswales.org/media/4734/welsh-language-scheme-final-june-2019-w-pdf.pdf>

- 2b. Esboniwch eich ateb yn y gofod isod, gan amlinellu'n glir pa effeithiau eraill yr ydych wedi'u nodi ac unrhyw gamau y gallem eu cymryd i leihau'r effaith hon.

Crynodeb

- 3.51 Rydym yn annog ymatebwyr i ymgysylltu â'n hasesiad effaith, i roi adborth ar yr effeithiau a nodwyd gennym, a rhoi gwybod i ni os oes unrhyw rai eraill y mae angen i ni eu hystyried. Mae'n bwysig bod ein cynigion yn gwireddu'r effeithiau cadarnhaol yr ydym am eu gweld ac yn lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar grwpiau o ddysgwyr gymaint ag sy'n rhesymol bosibl yn yr amgylchiadau unigryw hyn.

4. Camau Nesaf

- 4.1 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r ymatebion a dderbyniwn, ochr yn ochr â sylwebaeth yn amlinellu ein penderfyniadau a'r rhesymau dros y rhain, cyn gynted â phosibl yn dilyn y dyddiad cau.
- 4.2 Bydd angen i ni atal nifer o'r darpariaethau yn ein rheolau cyfredol dros dro fel y gall CBAC gyhoeddi canlyniadau yn unol â'r trefniadau eithriadol sy'n angenrheidiol yr haf hwn.
- 4.3 Byddwn hefyd yn rhoi rhai trefniadau rheoleiddio newydd ar waith i sicrhau bod CBAC yn gweithio yn unol â'r trefniadau newydd y cytunwyd arnynt fel, cyn belled ag y bo modd, bod safonau a hyder y cyhoedd yn y cymwysterau a system gymwysterau Cymru yn cael eu cynnal. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn debygol o fod yn berthnasol i'r cyrff dyfarnu eraill sy'n cynnig cymwysterau TGAU/TAG yng Nghymru.
- 4.4 Bydd unrhyw drefniadau rheoleiddio newydd a roddir ar waith ar gyfer yr haf hwn yn cael eu cynnwys mewn Dogfen Reoleiddio a'u cyhoeddi ar ein gwefan.
- 4.5 Byddwn yn cynnal ac yn cyhoeddi dadansoddiad llawn o ganlyniadau'r haf hwn yn hydref 2020.